

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 516 · Ionawr 2021 · Rhifyn Digidol · Am Ddim

Yma o hyd

Mae pawb ohonom yn ymwybodol bod y Coronafeirws wedi creu hafoc yn ein cymunedau ac wedi ein gorfodi i newid ein harferion am bron i flwyddyn. Bu 2020 yn greulon i lawer o deuluoedd yn Nyffryn Ogwen, ac 'r ydym yn dal i feddlw amdanynt.

Ond wyddoch chi be? Mi fedr y rhan fwyaf ohonom gyhoeddi'n ddiolchgar ein bod ni **YMA O HYD!** Ac ydi, mae cymdeithas glos a chynnes, a chymwynasgar a chyfeillgar Dyffryn Ogwen **YMA O HYD!** Pobol yn gofalu am ei gilydd, ac yn arbennig felly mewn cyfnod anodd fel llynedd. Mae'r Banc Bwyd lleol yn enghraifft amlwg o hynny, yn ogystal â chymdogion yn gwneud y siopa a chasglu presgripsiwn ac ati, lle bo angen. Clywsom am rai wedi rhannu cinio 'Dolig i'w cymdogion!

Gallem fynd ymlaen i restru llawer o bethau sy'n digwydd yma ac yn cynnal yr ysbryd cymdogol - ac yn fodd i godi calon mewn dyddiau dyrys. Sut flwyddyn fydd 2021 i ni tybed? Anodd darogan, ond fe allwn ni ddweud yn ffyddiog y bydd cymdeithas gynnes y Dyffryn **YMA O HYD!**

Yn rhyfedd iawn, wedi i mi ysgrifennu hyn o lith, cyrhaeddodd neges gan Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd, yn cadarnhau fy nheimpladau, fel petae. Mae'n werth i'w gynnwys yma ar dudalen flaen y Llais:

"Cafwyd sawl esiampl dros y dyddiau diwethaf o drigolion yn dangos caredigrwydd a chariad tuag at eu cyd-ddynion yma yn Nyffryn Ogwen. Mae ein gwaith fel Partneriaeth Ogwen wedi mynd rhagddo er gwaethaf y



pandemig. Dyma rai enghreifftiau yn unig:

Cyfaill Cymunedol – Cynhaliwyd y dosbarthiad olaf o brydau maethlon Caffi Coed y Brenin gan griw Partneriaeth Ogwen ar ddydd Iau, Rhagfyr 17eg. Mae'r cynllun yma a gefnogir gan gronfa ICF Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddiant mawr dros y deufis diwethaf. Nid yn unig ran dosbarthu bwyd blasus Karen a'r criw ond hefyd wrth greu cysylltiad a rhoi rhywfaint o gwmniaeth i drigolion hy'n y dyffryn. Bydd y cynllun hwn yn ail-ddechrau wythnos gyntaf Ionawr a beryg y byddwn yn brysur iawn unwaith eto. Diolch yn fawr i'r Caffi ac i staff ymroddedig y cynllun.

Cronfa Cefnogi Cymunedol – Mae'r prosiect yma wedi tyfu'n sylweddol ers ei sefydlu gan Manon Williams a Dilwyn Llwyd nôl ym mis Mawrth. Cawsom gefnogaeth ariannol gan gronfa Ynni Ogwen, y Cyngorau Cymuned ac wedyn cronfa Arian

i Bawb ym mis Awst i ymestyn y cynllun ac mae wedi profi'n hynod lwyddiannus. Bellach rydym wedi cefnogi bron i 1,000 o unigolion i ddarparu bwyd iddynt mewn blwyddyn galed

iawn ar adegau. Mae sawl unigolyn wedi rhoi rhoddion ariannol yn ogystal â bwyd, ac ers sefydlu'r pwynt casglu yn Llandis Bethesda mae'r cyfraniadau wedi llifo'i fewn. Mae sawl cwmni arall gan gynnwys Zip World a'r Royal Oak, Rachub wedi'n cefnogi yn ogystal â chasgliad arbennig gan drigolion Mynydd Llandegai ac rydym yn ddiolchgar iawn am yr holl gefnogaeth. Yn y llun gwelir llong fan o fwyd 'Fareshare'.

Casgliad Teganau – Mewn ymateb i'r clo diweddaraf treuliodd Vanessa Williams a Lowri Harrington oriau maith yn casglu teganau ar hyd y lled yr ardal. Cafwyd pentwr o gyfraniadau, llawer ohonynt yn newydd sbon, ac fe rannwyd rheini ochr yn ochr a'r gwasanaeth bwyd.



Mae
Santa YMA
O HYD

Dyma lun rhywbeth a gododd galonnau cyn y Nadolig, sef taith Siôn Corn i bob twll a chornel yn Nyffryn Ogwen. Diolch i bwyllgor Carnifal Bethesda am drefnu'r cyfan!

Blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr y Llais

Panel Golygyddol

Derfel Roberts

☎ 600965

derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

☎ 07815 093955

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

☎ 07713 865452

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

☎ 07588 636259

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

☎ 07867 536102

carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd

☎ 01248 601606

rml42@live.co.uk

Swyddogion

CADEIRYDD:

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT ☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA ☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH ☎ 601415

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ ☎ 600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN ☎ 600184

post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygydd rhifyn y mis hwn gan

Neville Hughes.

Y golygyddion ym mis Chwefror fydd

Walter a Menai Williams,

14 Erw Las,

Bethesda, LL57 3NN.

01248 601167

E-bost: waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,****30 Ionawr,** os gwelwch yn dda.

Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan

mai rhifyn digidol fydd hwn.

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain – £22

Ewrop – £30

Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Apêl am roddion i gynnal
Llais Ogwan

Mae'r Cyfnod Clo oherwydd y feirws Covid-19 wedi ein gorfodi i ohirio cyhoeddi copïau caled o Llais Ogwan am y tro. Fodd bynnag, 'rydym wedi penderfynu parhau i gyhoeddi rhifynnau digidol o'r papur am ddim ar wefannau Llais Ogwan a Bro360. Ond, golyga hyn nad ydym yn derbyn arian o werthiant y papur a bydd hyn yn lleihau'r incwm sydd ar gael i gynnal ein papur bro sydd wedi cael ei gyhoeddi yn ddi-dor ers y cychwyn ym mis Hydref 1974.

Gobeithiwn bod pawb yn mwynhau derbyn rhifynnau digidol o'r papur i'w darllen pob mis. Byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn unrhyw roddion gan ein darllenyddwr i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal y papur. Gallwch ddanfôn eich rhoddion at:

Mr Neville Hughes

14 Ffordd Pant,

Bethesda,

Gwynedd LL57 3PA

Diolchwn i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth i Llais Ogwan.

2020

Coblyn O Flwyddyn I'r Dyffryn
(a phob dyffryn arall.)

Colli rhyddid, colli teithio,
Colli ffrindiau'n galw heibio,
Colli cyffwrdd a chofleidio,
Rhaid cadw pellter dan y clo!

Colli hwyl a cholli iechyd,
Colli ffrindiau, colli bywyd,
Colli pleser a cholli hefyd
Ffordd o fyw oherwydd Cofid!

Colli capel, colli oedfa,
Colli canu'r hen emyna',
Colli Ysgol Sul bob bora,
Wrth gael ein sigo gan y pla!

Colli ysgol, colli gwersi,
Colli addysg, colli swyddi,
Colli cyflog a busnesi,
A rhai'n wynebu byw mewn tloidi!

Colli crwydro, colli gwyliau,
Colli drama a chyngherddau,
Colli myned i theatrau
Am fod y feirws wedi eu cau!

2021

Croesawu a Gobeithio

Adfer rhyddid i fyw yn normal,
Dyna'r gobaith sy'n ein cynnal,
Gweld goleuni 'mhen draw'r tynnal
Gyda'r brechlyn yn ein dal.

Wedi'r t'wyllwch fu'n ein llethu
Daw goleuni gyda'r brechu,
Ein gobaith yw bydd hwn yn trechu
A gorchfygu'r dyddiau du.

(NH)

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn
yn swyddfa'r deillion, Bangor

☎ 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth
â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar
CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415

Neville Hughes ☎ 600853

Apêl Arbennig y Llais

Ionawr 2021

£16.00 – Ken Jones, Edgware.

£20.00 – Di-enw, Llanfairpwll.

Diolch yn fawr i bawb



CYMRAEG

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE
01248 605582 a 07887624459
henbarc13@gmail.com

Llongyfarchiadau

I Tegwen Northam, Aberdeen (merch i Jean a Godfrey Northam, Llwyn Bedw) ar gael ei derbyn i fod yn aelod o'r Institiwt o Beirianwyr Mecanyddol, ac am gyflwyno gweminar cangen Aberdeen yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Iona a Gordon Robertson, Maes Bleddyn a'r teulu, wedi marwolaeth Mark (brawd Iona) wythnosau cyn y Nadolig, a hefyd â Gwenan Davies Jones (Pennaeth Ysgol Llanllechid) yn ei phrofedigaeth hithau.

Tai Newydd

Da oedd clywed fod y datblygiad o 30 o anheddau yng Nghae Rhosydd (dros ffordd i Maes Bleddyn) wedi cael caniatad cynllunio. Diolchwn i'r trigolion gerllaw oedd ddim wedi gwrthwynebu'r datblygiad, er mwyn sicrhau bod eraill yn cael rhywle i fyw. Mae'r datblygwr wedi ymrwmo i roi swm sylweddol o arian i Ysgol Llanllechid oherwydd yr effaith arni.

Nadolig Disglair

Da oedd gweld cymaint o dai yn yr ardal wedi eu harddurno efo goleuadau Nadolig yn ystod yr ŵyl, er diflastod y cyfnod clo.

Cyfeiriad Newydd

Nodwn bod y cyfeiriad i yrru newyddion neu wybodaeth i Llais Ogwan yn "Rachub a Llanllechid" wedi newid ar ôl i Emlyn ac Eleri Williams symud o Hen Barc i Pont Llan, Llanllechid. Fe fydd y rhif ffôn a'r e-bost yn aros yr un fath.

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

Capel Carmel

Dymuna'r Gweinidog a'r swyddogion Flwyddyn Newydd Dda, a gwell, i holl aelodau'r eglwys, aelodau Clwb Dwylo Prysus, a phlant yr Ysgol Sul, gan obeithio y cawn gyd-addoli yn fuan.

Penblwyddi Arbennig

Dathlodd un o'n haelodau ei phenblwydd yn 90 mlwydd oed ar 9 Rhagfyr, sef Mrs. Betty Percival Jones, Ffordd Tanybwllch. Llongyfarchiadau a chofion cynnes atoch! Un arall fydd yn dathlu penblwydd arbennig ddiwedd Ionawr fydd Mrs. Helen Wyn Williams. Penblwydd hapus Helen, a diolch am eich holl waith yn y capel.

Colli Aelodau

Collodd yr Eglwys bedwar aelod yn ystod 2020, sef: Mrs. Eira Hughes, Ffordd Ffrydlas; Mrs. Dorothy Williams, Bron Arfon; Mrs. Arfona Williams, Maes y Garnedd a Mr. Ben Richards, Stryd John. Rydym yn cofio'n gynnes iawn at eu teuluoedd.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i ddau deulu ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain am y tro cyntaf, sef Linda a Dilwyn Pritchard, ar enedigaeth Siwan Esyllt i Huw ac Angharad, a Deri a Megan Tomos ar enedigaeth Meredydd John i Cynon a Branwen.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Keith a Val Thomas a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd yn sydyn, sef Mr. Selwyn Thomas.

Mynydd Llandygai

Colli Theta

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth sydyn Mrs. Theta Mary Owen. Bu farw'n dawel yn ei chartref, Gwêl y Môr, ar 18 Rhagfyr, yn 81 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Leslie Owen, mam hoffus i Lynda, Cheryl a Susan a hefyd yn nain a hen nain. Colled fawr i'w theulu a'i ffrindiau, a cholled hefyd i Llais Ogwen. Bu Theta yn casglu newyddion Mynydd Llandygai i'r Llais ers nifer o flynyddoedd, ac fe werthfawrogwn ei chyfraniad. Bydd bwllch ar ei hôl!

Cynhaliwyd angladd preifat ar 31 Rhagfyr, ac fe anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu i gyd yn eu hiraeth.

Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen

Fel y rhelyw o bwyllgorau a chymdeithasau yn y dyffryn, blwyddyn wahanol iawn oedd hi i ninnau eleni. Dim boreau coffi na chymdeithasu. Er hyn drwy gyfrwng technoleg cawsom gyfarfodydd o'r Gangen i wneud yn siwr bod yr olwynion yn dal i droi. Newydd iawn oedd pwyllgora fel hyn i rai ohonom, ond fel y dywed Tudur Owen yn wythnosol bron "Dydy hi byth rhy hwyr!" Gyda diolch i Gwynfor Rowlinson sefydlwyd tudalen ar y gwebylfr sef Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Beth am gael golwg arni.

Gwyddom bod trigolion y dyffryn wedi cael blwyddyn wahanol iawn, a rhai wedi cael un galetach na'i gilydd. Yn ystod y cyfnod bu ein Cynghorwyr Sir yn brysur iawn. Gyda diolch i Paul Rowlinson a Rheinalt Puw ail gychwynwyd gwasanaeth bws Arriva o Gerlan. Cafwyd nifer o gwynion gan y trigolion, ynghyd ag Ann a Linda, y cynghorwyr cymuned, am y diffyg gwasanaeth, ac o'r diwedd cafwyd y maen i'r wal. Mae rhifau cysylltu ein Cynghorwyr Sir yn y Llais.

Gwelsom hefyd bwysigrwydd ein busnesau lleol a'u parodrwydd i wasanaethu eu cymdeithas. Diolch iddynt a chofiw'n bod cefnogi'n lleol yn dda i'r economi leol.

Gobeithio gyda dyfodiad y frechlyn y bydd 2021 yn well blwyddyn i bawb. Mae hi hefyd yn flwyddyn etholiad, ac ym mis Mai byddwn yn ethol ein haelod seneddol i Senedd Cymru. Bu Siân Gwenllian yn hynod weithgar dros y bedair blynedd ddiwethaf.

Felly Blwyddyn Newydd Dda, gan obeithio y bydd hi yn un well i bawb yn yr ardal!

SIOP OGWEN

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen.
Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2),
Dydd Iau /Gwener (10-5)
a dydd Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

01248 208 485

Hel Meddyliau wrth Hunanynysu

Ddechrau mis Rhagfyr mi fûm i'n ddigon ffodus o gael lletya yn Rhes Gordon, Bethesda am bythefnos er mwyn hunanynysu oherwydd y feirws covid. Dwi'n byw yn y Gaiman ym Mhatagonia ac ar ôl y daith awyren hir yn ôl i Gymru, rhaid oedd hunanynysu er mwyn cael mynd wedyn i dreulio'r Dolig efo fy rhieni yn y Ffôr ger Pwllheli – a pha le gwell i wneud hynny na Dyffryn Ogwen!

Er nad oeddwn i'n cael mynd i dŷ fy chwaer Fflur a'i theulu, sy'n byw yn Garneddwen, mi gefais gyfle i grwydro strydoedd Pesda a glannau afon Ogwen, gan hel meddyliau am hyn a'r llall. Yn rhyfedd ddigon roedd dwy o hen, hen neiniau fy ngŵr wedi ymfudo o Ddyffryn Ogwen i Batagonia yn 1865. Mae hanes y ddwy braidd yn niwlog erbyn hyn ond gwyddom mai un o Fethesda oedd Grace Roberts, ac yn ôl yr ysgrifen ar gefn hen lun o Elizabeth Pritchard yn hogan ifanc, roedd hithau wedi byw yn 'Llain Hir, Bethesda' efo rhyw Isaac Williams a'i wraig. (Mae'n debyg ei bod hi'n blentyn amddifad a'r ddau yma wedi ei chymryd i'w magu. Mae sôn ei bod wedi byw yn ardal Pentir hefyd, a Chaerhybi.) Pan oedd Grace yn 25 oed ac Elizabeth yn 20, roedd rhyw ddyn yn poeni un ohonynt yn ôl yr hanes ac felly fe benderfynodd y ddwy hwylio ar long y *Mimosa* i Batagonia. Ymhen y flwyddyn roedd y ddwy wedi priodi dau lanc ifanc a oedd yn cyd-deithio â nhw ar y llong. Rai blynyddoedd wedyn priododd un o feibion Grace (Llywelyn Berry Rhys) ag un o ferched Elizabeth (Dilys Berwyn) a disgynyddion o'r



Elizabeth Pritchard yn ferch ifanc (gyda'i brawd?) ac Isaac Williams (a'i wraig?), Llain Hir, Bethesda (tynnwyd yn y 1850au).

uniad hwnnw ydy Cristian fy ngŵr i, a Mabon ac Idris ein dau fab.

Ar ymweliad â Bethesda rhyw chwe mlynedd yn ôl, cafodd Mabon ac Idris groeso cynnes yn Ysgol Abercaseg a threulio ychydig ddyddiau gyda'r plant yno. Cofiaf feddwl ar y pryd mor braf fyddai cael gwybod tybed a oedden nhw'n perthyn o bell i rai o'u ffrindia newydd yr ysgol – a dyna oedd yn mynd drwy fy meddwl unwaith eto wrth hunanynysu yn y dre a chrwydro ardaloedd difyr Gerlan, Carneddi, Braichmelyn... gan feddwl am Grace



Mabon Llywelyn ac Idris Llwyd o'r Gaiman, Patagonia ar eu ffordd i Ysgol Abercaseg yn 2014 ac yn mwynhau yno efo ffrindia

Roberts ac Elizabeth Pritchard, y ddwy ferch ifanc a hwyliodd i ben arall y byd dros gant a hanner o flynyddoedd yn ôl.

Tybed a oes unrhyw un yn ardal Bethesda neu Bentir yn cofio rhyw sôn am berthnasau pell draw yn y Wladfa ym Mhatagonia, neu rywun sydd wedi bod yn hel achau gan ddod ar draws enw Grace Roberts neu Elizabeth Pritchard? Byddai'n braf iawn cael gwybod bod gan Mabon ac Idris fwy fyth o deulu yn Nyffryn Ogwen hyd heddiw.

Esyllt Nest Roberts

Yn yr Ardd

Ionawr

Ym mis Ionawr mae angen amddiffyn yr ardd rhag rhew a barrug, gwyntoedd cryfion a glaw trwm. Gallech symud rhai planhigion er mwyn sicrhau eu bod yn cael mwy o oleuni. Cofiwch fwydo'r adar hefyd – mae bwyd yn brin iawn iddyn nhw yn ystod y gaeaf. Gallwch hefyd ddechrau cynllunio ar gyfer yr ardd lysiau eleni.

Tasgau

1. Gwaredu'r goeden Nadolig trwy ei thorri'n ddarnau mân a'i defnyddio fel taenfa [mulch] i orchuddio'r pridd.
2. Agorwch ffenestri'r tŷ gwydr ar ddyddiau braf.
3. Pan nad yw'r pridd yn rhy wlyb, gallwch balu rhannau nad ydynt eisoes wedi'u palu.
4. Gallwch drwsio ac ail-siapio ochrau'r lawnt.

5. Edrychwch yn ofalus ar y Dahlia, Begonia a'r Canna rhag ofn eu bod wedi pydru.
6. Gallwch docio coed afalau a gellyg.
7. Gallwch roi bwced ar y riwbob a'i berswadio i dyfu'n gynt.
8. Cynlluniwch y modd yr ydych am gylchdroi eich cnydau yn yr ardd lysiau eleni.
9. Rhowch fwyd a diod yn rheolaidd i'r adar.
10. Mwynhewch gynllunio ymlaen wrth ddarllen eich catalogau.

Os yw'r ddaear wedi rhewi, cuddiwch eich rhosynnau neu goed ffrwythau sydd heb eu plannu â gwrtaith a'u gosod mewn potyn mewn lle cysgodol neu sied hyd nes y bydd y tywydd yn gwella. Byddai'r hen bobl yn dweud ei fod yn syniad da i roi cinio ar ddiwrnod Nadolig i'r rhosod hefyd. Os na wnaethoch chi hynny ychydig yn ôl, wel


dyma'ch cyfle i'w bwydo nhw rŵan.

Cliriwch hen ddeilach a glaswellt a spigwch y lawnt yn ddwfn hefo fforch. Mae hwn yn waith caled ond mae'n talu ar ei ganfed am fod yr aer yn ysgafnau'r pridd ac yn rhwystro mwsog yn nes ymlaen.

Planhigyn y mis – *Hamamelis mollis* (Collen ystwyth/Wych hazel)

Daeth y goeden hon o Tsieina yn 1879. Mae'n goeden boblogaidd gan fod y brigau sy'n dal clystyrau o flodau melyn peraroglus yn dod â lliw ar ganol gaeaf. Yn nes ymlaen, bathwyd yr enw collen ystwyth gan ymsefydlwyr Prydeinig i Ogledd America oedd yn gweld tebygrwydd i'r gollen oedd yn gyfarwydd iddynt o'u mamwlad.

Daw'r gair 'wych' o'r hen air Saesneg am frigau hyblyg; dyna pam y defnyddir brigyn o'r gollen hon fel gwialen i chwilio am ddŵr – 'dowsing rod'.



Bethesda

Mary Jones,
maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Ymdeoliad

Ar ddiwedd y flwyddyn 2020, wedi 18 mlynedd o wasanaeth, mae Susan Jones wedi ymdeol o'i gwaith yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen ym Methesda. Dymunwn ymdeoliad hir a hapus i chi Susan!



Ysbyty

Anfonwn dymuniadau da am adferiad buan i Dilwyn Owen, Erw Las. Derbyniodd Dilwyn driniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ychydig ddyddiau cyn y Nadolig, ond cafodd ddod adref ar noswyl y Nadolig. Gobeithio ei fod yn teimlo'n well bellach.

Gwellhad buan i Margaret Roberts, Ffordd Ffrydlas a gipiwyd i'r Ysbyty cyn y Nadolig, ond wedi triniaeth cafodd ddod adref at ei gŵr, Emyr. Nid yw yntau chwaith wedi bod yn dda yn ddiweddar. Cofon gorau at y dda ohonoch.

Cofon cynnes â'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr. Phillip Thomas, Rhos Douglas, Mrs. Margaret Swift, Maes Coetmor a Mr. John Roberts, Ffordd Pant, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Gwella

Da yw gweld bod Janet Jones, Erw Las yn gwella ac yn mentro allan am dro.

Cydymdeimlo

Yn ddisymwth iawn ddiwedd Tachwedd bu farw Selwyn Thomas, un o hogia Maes Coetmor. Roedd Sel a'i wraig Carys wedi ymgartrefu

yn Nghyffordd Llandudno. Cydymdeimlwn a'i frawd a'i chwaer yng nghyfraith Keith a Val Thomas, Rachub, a'r teulu oll, ynghyd â nifer o'i ffrindiau yn yr ardal yn cynnwys Andre a Sylvia, Mary ac Angharad. Anfonwn ein cofon at Carys, Bethan, Rich, Megan a Gethin.

Diolch

Dymuna Mary Jones, Erw Las ddiolch o galon i deulu, cymdogion a chyfeillion am eu holl ofal a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Rydym mor lwcus i fyw mewn cymuned lle mae pobl yn edrych ar ôl ei gilydd. Buasai bywyd wedi bod yn anodd iawn heb gymdogion arbennig.

Marwolaethau

Heulwen Roberts

Yn ei chartref, 22 Maes y Garnedd, ar 6 Rhagfyr, bu farw Heulwen Roberts yn 65 mlwydd oed. Mam a mam yng nghyfraith annwyl i John a Mandy, Derfel a Kerry, Gerallt a Dana, a Donna a John. Nain hoffus i Mark, Rebecca, Natalie, Gwyn, Sam, Shaun, Dion, Cara, Huw a Gwawr. Hen nain i Max, Tommy ac Olivia a chwaer i Helen, Violet, Dennis a David. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Crist Glanogwen a

mynwent Coetmor, ddydd Gwener, 11 Rhagfyr, gyda'r Barchedig Tracy Jones, Bangor, yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu a hefyd gyda staff siop Londis, Bethesda, ble 'roedd Heulwen yn uchel iawn ei pharch.

Vera Gordon Davies

Ar ddydd Nadolig, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs. Vera Gordon Davies, Dolgoch yn 96 mlwydd oed. Priod y diweddar Mr. Gwilym Davies, a modryb annwyl i Wendy, Gareth a Rita. Bu yn nyrs hyd at ei hymddeoliad ("Sister" yn yr hen Ysbyty Dewi Sant, Glanadda, Bangor). Bu gwasanaeth yr angladd yn Amlogfa Bangor ddydd Gwener, 8 Ionawr. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Arthur Glynne Williams

Ar 28 Rhagfyr, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr. Arthur Glynne Williams, Cae Garnedd, Penrhosgarnedd (gynt o Allt Penybryn, Bethesda) yn 75 mlwydd oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs. Catherine Williams. Colled fawr i'w lys-deulu a chyfeillion. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor, ddydd Gwener, 15 Ionawr. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

Yr Eglwys Unedig

Gwasanaethau

Cynhaliwyd amryw o wasanaethau ar y ffôn ar foreau Sul yn ystod y misoedd a aeth heibio, ac 'rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhai a fu'n ein harwain ynddynt. Diolch hefyd i'r Parchedig R.O. Jones am gynnal gwasanaeth bendithiol fore'r Nadolig - eto ar y ffôn, - pryd y daeth cynulleidfa deilwng iawn at ei gilydd. Gwerthfawrogn ffyddlondeb yr aelodau, a ffrindiau, sydd yn ymuno â ni, ac er na fedrwn eich gweld, mae'n hynod o braf cael clywed eich lleisiau! Yn wyneb y cyfyngiadau parthed y pandemig, byddwn yn parhau â'r trefniadau hyn ar gyfer yr wythnosau nesaf yma, ac os hoffech ymuno â ni, cysylltwch â'r Ysgrifennydd (01248 601 167) er mwyn cael y wybodaeth angenrheidiol. Mae croeso cynnes iawn i bawb.

Y Blwyddlyfr

Mae'r Blwyddlyfr wedi cyrraedd erbyn hyn - cysylltwch â'r Ysgrifennydd os am gael copi ohono.



Anrhegu

Ar achlysur ymdeoliad Mrs Alwenna Puw, wedi blynyddoedd maith o fod yn Arolygydd yr Ysgol Sul, cyflwynodd yr athrawon a'r plant anrhegion iddi mewn gwerthfawrogiad o'i hymroddiad clodwiw. Ynghyd â blodau

hyfryd, cyflwynwyd iddi englyn o waith y Prifardd Ieuan Wyn, a diolch iddo amdano.

Yn y llun gwelwn Alwenna gyda'i anrhegion, a hefyd yr englyn gan Ieuan Wyn.

I Alwenna Puw

(fel arwydd o werthfawrogiad Ysgol Sul Jerusalem)

Ar y Sul ymroes i waith, - a hynny

Yn wasanaeth hirfaith;

Rhoi i'r ifanc drwy afiaith

Foes-ganllawiau dechrau'r daith.

Ieuan Wyn 2020

Cofon

Anfonwn ein cofon cywiraf at bawb nad ydynt yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd, gan obeithio y daw 2021 â gwellhad iddynt. Yn yr un modd, dymunwn flwyddyn newydd well i bob un ohonoch:

"Awn rhagom i'r anwybod

A'n pwys ar ddwyfol fraich;

Rho nerth am flwyddyn arall

I bob un ddwyn ei faich."

(John Roderick Rees)

Eglwys Crist, Glanogwen

Dlloch i bawb ddaeth i'n gwasanaethau dros y Nadolig, sef y 9 Llith a Charol ar Rhagfyr 20 a'r Cymun Noswyl Nadolig. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn yn dilyn y ddau gyfarfod, a diolch i'r rhai gymerodd ran ac i bawb am gadw at y canllawiau.

Gobeithiwn gynnal gwasanaeth Cymun ar y Sul cyntaf o'r mis dros y gaeaf, onibai bod newid mawr yn y canllawiau gan yr awdurdodau.

Diolch o galon i bawb ddaeth a rhoddion i Fanc Bwyd y Gadeirlan. Braf oedd cael trosglwyddo llond cist car o nwyddau a danteithion, ac roedd y gwirfoddolwyr yn ddiolchgar dros ben am ein haelioni. Braf meddwl ein bod fel eglwys yn gallu ymestyn help llaw i rai llai ffodus na ni yn ein cymuned leol.

Cawsom fel eglwys ein syfrdanu ddechrau Rhagfyr o glywed am farwolaeth annisgwyl y Parchedig Lloyd Jones. Ficer Clynnog oedd Lloyd, ond fel ein Deon Gwlad bu'n gofalu am eglwysi Bro Ogwen dros y flwyddyn ddiwethaf ers i ni fod heb ficer ein hunain, a mawr oedd ein parch at ei arweiniad, ei gefnogaeth a'i gyfeillgarwch yn ystod y cyfnod hwn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Casi, ei weddw, a'r meibion Dafydd a Tomos yn eu profedigaeth lem.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Well o lawer i'n haelodau i gyd ar gyfer 2021, gan obeithio'n fawr y bydd y Newyddion yn rhai gwell i bawb cyn bo hir.

Cofwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Porthaethwy Benllech
(01248) 723106 (01248) 719517 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

Y Fronfraith, Anti Hilda a Fi

Ar fy nhaith foreol ddoe roeddwn i wedi mynd â fy mheiriant recordio efo fi. Mae gymaint o adar yn canu yn yr awr cyn y wawr, ac mae'n gyfle da i recordio cyn i'r holl geir ddechrau llenwi'r ffyrdd. Meddyliais mai dim ond pwysu'r botwm oedd rhaid, ond nid oeddwn wedi gosod y lefelau, felly doedd dim un o'r lleisiau melys wedi cael ei ddal. Er mwyn paratoi am gael ail gyfle nes i eistedd yn yr ardd i baratoi'r peiriant er mwyn gwneud ail ymdrech heddiw. Doedd dim llawer o adar yn canu ar y pryd ond digon i mi wneud yn siŵr bod popeth wedi cael ei osod yn iawn. Wrth bwysu'r botwm i wrando ar y canlyniadau, nid yr adar oedd yn canu ond Anti Hilda yn siarad! Tair blynedd ynghynt roeddwn i wedi mynd i'r gogledd yn y campyrfan ac yn ystod yr ymweliad wedi galw i weld Anti Hilda efo Gwylan, fy nghyfnither. Heblaw am y pleser o weld Anti Hilda roedden ni'n gobeithio recordio sgwrs.

Nes i osod y meicroffon ar y bwrdd, pwysu'r botwm a ffwrdd â ni. Siaradon ni am seiclo a hithau'n sôn am yr amser wnaeth hi ac Anti May, a oedd yn hŷn na hi, seiclo



o Ddolgellau'r holl ffordd i Gymoedd y De. Aros mewn Youth Hostels oedden nhw. Roedd Anti May yn hŷn ac yn gryfach ond mi roedd hi'n aros ar ben yr ellydd er mwyn i Anti Hilda ddal i fyny, ond wedyn mynd ymlaen yn syth ar ei thaith! Doedd Anti Hilda ddim yn cael cyfle i gael ei gwynt yn ôl! Aeth tair o'r chwiorydd i seiclo yn ardal Lleyh hefyd. Dyna le oedden nhw'n edmygu harddwch y wlad o'u cwmpas, ac un yn codi ei braich i dynnu sylw at safle'r ysgol fomio. Collodd ei chydbwysedd a syrthio yn erbyn y chwaer ar y chwith, hithau'n taro'r drydedd chwaer a'r tair yn glanio yn un pentwr ar y llawr. A pham bod rhaid mynd mor bell dim ond i chwarae dominos dwedwch?



Wrth gwrs doedd y ffyrdd ddim mor brysur a heddiw, ond sut oedd eu cyflwr? Gyda llaw roedd wyth chwaer, druan o Taid ynte!

Wrth i mi eistedd yn yr ardd yn gwrandao ar hyn sylwais ar fronfraith yn crwydro o dan y

coed afalau. Mae'r adar yn hoff iawn o'r darn yna - llawer o fwyd blasus! Roedd hi'n hapus ei byd yn chwilota a phob hyn a hyn yn aros i syllu arnaf. Y ddau ohonom yn fodlon iawn i rannu'r ardd.

Gofynnodd Gwylan i'w mam a oedd hi'n cofio'r amser aethon nhw i aros yn Stratford a mynd i theatr yr RSC. Oedd mi oedd. A oedd hi'n cofio mynd i'r theatr arall 'The Other Place' i weld y ddrama Gardd Eden? gofynnodd Gwylan. Oedd mi oedd a wnaeth hi ychwanegu efo cyffro "and they were all nude!" Dim ond ar y llwyfan wrth gwrs, roedd y gynulleidfa yn gymharol barchus. Wedi i mi glywed hi'n dweud hyn syrthiodd y recorder oddi ar fy nglin a throi ei hun i ffwrdd. Codais fy mhen i weld y fronfraith yn heglu hi o'na efo'i hadenydd yn dynn dros ei chlustiau mewn syndod.

Does dim ffordd i wneud 'fast forward' ar y recorder, ac roedd hyn wedi digwydd awr i mewn i'r sgwrs, felly nid ydw i'n cofio mwy. Ond gan fod y straeon gorau i gyd yn gorffen efo 'cliffhanger' mi wna i adael popeth yn fanna!

Hwyl fawr i chi, a'ch dychymyg!

Rob Evans

Colli Ivor Melancthon Williams, Tywysog Y Moduron Porffor

Tua hanner awr wedi pump bnawn Gwener, Tachwedd 6, y llynedd, canodd y ffôn. Gillian, merch Ivor a Beti, 47 Abercaseg, oedd y pen arall gyda neges drist iawn. Roedd newydd gollu ei thad (yn 92 oed) ychydig oriau yng nghynt ac, at hynny, roedd Beti, ei mam, hefyd yn glaf yn yr un ysbyty. Roedd Gillian ar fin cychwyn i Fangor i dorri'r newyddion drwg i'w mam.

Er nad oedd Ivor wedi bod yn dda ers blynyddoedd ac yn gaeth i'w gadair ers tro byd, cafodd y gofal tyneraf gan Bet (er i'w hiechyd hithau fod yn bur fregus yn ystod yr un cyfnod) ac roedd ymweliadau cyson Shirley a Gillian yn rhoi cysur mawr iddo, ynghyd â'r hwyl a gâi gyda'i wyrion a'i orwyrion.

Cefais innau groeso cynnes iawn gynno fo a Bet bob tro y byddwn yn galw yno, ac yn enwedig felly pan fyddwn yn mynd â chyfaill i ni'n dau, Ivor a minnau, efo fi. A phwy oedd hwnnw, tybed? Neb llai na'r diweddar David Elwyn Pritchard, oedd yn fwy cyfarwydd i ni i gyd fel Dafydd Rose – 'halen y ddaear' a ffrind triw. Gwyddwn y byddai Dafydd weithiau'n galw ar ei ben ei hun i weld Ivor nes i broblemau iechyd wneud hynny'n anodd iddo.

Mynd i lawr lôn atgof y byddem yng

ngwmni Ivor ac yntau'n mwynhau sôn am y dyddiau a fu 'ar y bysys' a dwyn i gof nifer o droeon trwstan oedd wedi digwydd ar y Moduron Porffor. Ond cofiem ein dau am Ivor yn yrrwr medrus a phwyllog, bob amser yn ofalus a chwrtais gyda'r miloedd o deithwyr y byddai'n eu gyrru i bob rhan o Gymru, a'r tu hwnt.


Roedd ei goets Bedford fel pin mewn papur gynno fo bob amser ac edrychai ar ei hôl fel pe bai o'i hun wedi talu amdani! Mae'n deg dweud fod ei gylch cyfeillion yn enfawr a châl'r parch a ddangosai tuag at ei deithwyr ei adlewyrchu yn eu parch hwythau tuag ato fo.

Bu colli Ivor yn ergyd drom i bawb oedd yn ei adnabod ac, wrth gwrs, i Beti, Shirley, Gillian, a'u teuluoedd. Cydymdeimlwn yn ddwys efo Beti a'r teulu yn eu galar a'u profedigaeth lem. Mae'n dda cael adrodd bod Beti bellach gartref o'r ysbyty ers rhai wythnosau.

Cynhaliwyd gwasanaeth ei angladd yn Eglwys Crist Glanogwen ac yna yn yr Amlosgfa ym Mangor bnawn Gwener, Tachwedd 20.

JEH

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

**Perchennog
A. Ll. Williams**

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN**

☎ 600723
Ffacs: 605068



Gosod manau gwefru ar gyfer ceir trydan yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i wrando ar farn ein cymunedau wrth fynd ati i osod manau gwefru ar gyfer cerbydau trydan ar draws y sir.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r defnydd o geir trydan wedi cynyddu, gyda llawer mwy yn ymwybodol o'r angen i leihau ein ôl-troed carbon. Mae'r Cyngor rwan yn gofyn i drigolion am y lleoliadau maen nhw'n deimlo fyddai'n addas i sefydlu'r manau gwefru.

Dywedodd Cynghorydd Gareth Griffith, Aelod Cabinet Amgylchedd y Cyngor: "Mae Cyngor Gwynedd eisiau ei gwneud hi'n haws i drigolion newid o gerbydau petrol a disel drwy ddarparu rhagor o bwyntiau gwefru ceir trydan ar draws y sir.

"Fel Cyngor, rydym wedi lleihau ein hallyriadau carbon o 47% ers 2006. Mae'r datblygiad cyffrous yma o ddatblygu safleoedd pwyntiau gwefru yn adeiladu ar y gwaith da yma ac yn gam pwysig yn ein hymrwymiad i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

"Y llynedd fe ddaru ni gychwyn y gwaith o adnewyddu ein cerbydau tanwydd disel a phetrol gyda cherbydau trydan. Er mwyn eu pweru gosodwyd pwyntiau gwefru yn y lleoliadau ble mae'r cerbydau yn cael eu parcio yn ystod y nos.

"Drwy gydweithio gyda Scottish Power



Y Cynghorydd Catrin Wager a'r Cynghorydd Gareth Griffith, Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd gydag un o gerbydau trydan y Cyngor.

Energy Networks [SPEN], ein bwriad dros y ddwy flynedd nesaf ydi cyflwyno rhagor o leoliadau gwefru ceir mewn meysydd parcio a safleoedd y Cyngor iddynt fod ar gael i'r cyhoedd.

"Mae holiadur ar gael ar wefan y Cyngor, sydd hefyd yn rhoi'r cyfle i ni fel Cyngor weld os oes unrhyw rwystrau neu gyfleoedd eraill

i geisio annog y defnydd o gerbydau trydan yn y sir. Rydan ni'n annog pobl i ddweud eu dweud fel y gallwn sicrhau fod ein cynlluniau yn cyd-fynd gyda dyheadau pobl Gwynedd."

I wybod mwy am y gwaith ac i ddweud eich dweud am bwyntiau gwefru ceir yng Ngwynedd ewch i: www.gwynedd.llyw.cymru/ PwyntiauGwefru

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái,
Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Blwyddyn Newydd Dda!

Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Nyffryn Ogwen. Mewn amser mor anodd dymunwn heddi, hapusrwydd ac iechyd da i chi a'ch teuluoedd. Mae ein meddyliau a'n gweddiau gyda Liz Jones, Pat Jones a Joy Radcliffe, aelodau o'r gynulleidfa sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar neu mewn iechyd bregus.

Diolch Arbennig

Diolch yn fawr i aelodau a ffrindiau eraill yr eglwys yn y pentref ac yn yr ardal am eu cyfraniadau i Apêl Nadolig Eglwys Sant Tegai. Bydd yr arian ychwanegol yn helpu i barhau gyda'r gwaith sylweddol o atgyweirio adeilad pwysig o'r Canol Oesoedd. Cafwyd ymateb ardderchog hyd yn hyn a braf oedd cael derbyn rhoddion hael gan bentrefwyr neu ffrindiau o ardaloedd eraill sydd ddim yn angenrheidiol yn addolwyr cyson ond yn barod i helpu mewn cyfnod o argyfwng neu angen. Bydd yr eglwys wrth gwrs yn parhau ar gau trwy gydol misoedd y Gaeaf a'r Gwanwyn fel mae'r gwaith yn mynd ymlaen ar y to a'r waliau allanol. Talwyd dros £20,000 eisoes am y gwaith a wnaethpwyd ers yr Hydref 2020. Fel canlyniad, rydym yn parhau i dderbyn yn ddiolchgar iawn unrhyw gyfraniadau tuag at gynnal a chadw yr adeilad

a'r fynwent fawr hanesyddol. Gellir gyrru cyfraniadau i unrhyw un o'r swyddogion canlynol:

Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)

Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)

Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.

Sieciau yn daladwy i 'Eglwys Llandegai' neu arian parod mewn amlen gydag enw a chyfeiriad llawn. Gallwch gysylltu i gael manylion banc yr eglwys i wneud taliad uniongyrchol os yw yn fwy cyfleus.

Cydymdeimlo

Ar drothwy'r Nadolig clywsom y newyddion trist am farwolaeth annisgwyl ein Deon Gwlad, Y Parchedig Lloyd Jones. Lloyd oedd yn gyfrifol am eglwys Bro Ogwen ers ymadawiad ein cyn-Ficer John Matthews a chyflawnodd ei waith fel arweinydd ardal yn ddiffuant a chydwybodol. Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w weddw, Y Parchedig Casi Jones ac i'w deulu.

Llywodraethwyr Ysgol Llandygai

Mewn cyfarfod diweddar o Microsoft Teams ar-lein bu cyfle i gynrychiolwyr yr eglwys ar Gorff Llywodraethol Ysgol Llandygai longyfarch a diolch i'r Pennaeth, Mr Elfed Morgan Morris, staff a disgyblion yr ysgol am eu gwaith caled yn

ystod tymor anodd y Nadolig.

Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai

Yn ystod cyfnod y coronafirws mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clos drwy ebost ac yn ymuno pob dydd Sul am 10.15 mewn cydweiddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen. Mae Warden y Ficer yn gyrru deunydd addoli yn wythnosol drwy ebost. Croeso i chi oleuo kannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrdd a dweud gweddi gyda ni.

Mae ambell aelod o'r eglwys wedi mynychu gwasanaethau boreol weddi, carolau a Nadolig yn eglwysi eraill Bro Ogwen sydd wedi ail-agor yn ddiweddar. Gweler manylion unigol gan Eglwys St Cross Talybont, St Cedol Pentir, Crist Glanogwen, Gelli Tregarth a St Fair Mynydd Llandegai.

Diolch i'r Esgob ac i Mary Stallard am y myfyrdodau wythnosol ac i Catrin Hobson, St Cross am drosglwyddo yr holl ddeunydd i Eglwys Llandegai ac i'r eglwysi eraill ym Mro Ogwen. Cynhaliodd Sion Rhys Evans gyda chymorth Archddiacon Meirionydd Andrew Jones a'r organydd Robert Jones wasanaeth Gosber trwy gyfrwng y Gymraeg bob nos Sul yn ystod yr Adfent a'r Ystwyll. Gweler gwefan yr Esgobaeth am yr holl ddarpariaeth addoli.

Manylion Cyswllt

Tra mae eglwys Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynghlŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Llythyr

Annwyl Olygydd, Grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru yn ariannu prosiectau sy'n cysylltu pobl o bob cefndir, cenhedlaeth a chymuned â'u treftadaeth leol a chenedlaethol.

Mae treftadaeth ar gyfer pawb ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi sector treftadaeth gyfoethog ac amrywiol Cymru, sefydliadau dielw, y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol drwy'r argyfwng COVID-19.

Fel rhan o'r ymrwymiad yma, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru wedi ailagor ei rhaglen grantiau ar gyfer prosiectau treftadaeth.

Rydym yn derbyn ceisiadau unwaith eto am grantiau gan sefydliadau sy'n gweithio gyda threftadaeth i adeiladu eu gwydnwch fel y gallant addasu ac ymateb i'r amgylchedd newydd y maent bellach yn gweithredu ynddo.

Mae'n bwysig bod ein treftadaeth yn adlewyrchu amrywiaeth â phawb yn y gymdeithas ac yn cwmpasu pobl o wahanol grwpiau oedran a chredoau crefyddol, lleiafrifoedd ethnig, cymunedau LHDT+ a phobl anabl.

Felly, rydym yn croesawu ceisiadau grant gan grwpiau i ganolbwyntio ar yr amrywiaeth yma drwy brosiectau megis archwilio gwahanol genedlaethau, cymunedau a'u hanes, prosiectau sy'n canolbwyntio ar hanes dan arweiniad pobl ifanc neu rannu treftadaeth LHDT+.

Mae gan dreftadaeth rôl hollbwysig i'w chwarae o ran helpu pobl, cymunedau a lleoedd drwy'r argyfwng COVID-19 a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu sector treftadaeth a chymunedau Cymru i oroesi'r cyfnod anodd yma a ffynnu eto diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Dyna pam yr hoffwn wahodd eich darllenwyr i ddarganfod mwy am y mentrau hyn drwy ymweld â'n gwefan - <https://www.heritagefund.org.uk/cy> a chlicio ar y tab 'Ariannu' lle gallan nhw ddod o hyd i'r holl fanylion a gwybodaeth am raglenni eraill.

Yn gywir Andrew White, Cyfarwyddwr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru
E-bost Cyffredinol: walescontact@heritagefund.org.uk

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrâu ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch yn ardal Tregarth a Dyffryn Ogwen. Ein gobaith ni i gyd yw y byddwch yn ofalus ac yn osgoi y pandemig sydd o'n cwmpas y dyddiau hyn.

Ennill Gwobr

Llongyfarchiadau i Aled Parry Williams, Bro Syr Ifor, a fu'n ffodus iawn i ennill teledu ar y rhaglen Heno. Er fod ganndd

dair teledu yn barod roedd yn hapus iawn i dderbyn yr un newydd trwy law y cyflwynydd a pheldroediwr Owain Tudur Jones. Cawsom gyfle i weld Aled yn derbyn y teledu ar y rhaglen yn ddiweddarach. Da iawn chdi Aled!

Profedigaeth

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Buckley Wyn Jones,

Cae Derwen, Tregarth, yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ar Ragfyr 17, ac yntau yn 85 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrfa gyda'i wraig Brenda, ei frawd a gweddill y teulu. Bu'r angladd yn Amlogsgfa Bangor ar Ragfyr 24.

Brodor o Ddolgellau yn Sir Feirionnydd oedd Buckley a bu'n gweithio fel saer i Gwmni Theatr Cymru ym Mangor am rai blynyddoedd cyn agor Siop Dillad Dynion ym Methesda am gyfnod. Bu'n weithgar iawn hefyd gyda Chlwb Rygbi Bethesda a bydd llawer o'i ffrindiau yn gweld ei golli yn fawr.

Diolch

Dymuna Arthur, Sioned, Rhys, Llion a'r teulu oll ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth o golli Carys. Hoffem ddiolch yn ddi-ffuant i'w holl ffrindiau am eu haelioni, cefnogaeth a charedigrwydd yn ystod ei salwch. Diolch i'r Parchg. Huw John Hughes am arwain y gwasanaeth yn yr amlogsgfa ac i Gareth Williams, yr ymgymerwr, am ei waith trylwyr. Diolch i haelioni pawb fe gasglwyd £4000 o roddion i'w rhannu rhwng Nyrus Cymunedol Bethesda a Nyrus Gofal Lliniarol (palliative care) - yr oedd eu cefnogaeth yn amhrisiadwy.

Gwellhad buan

Syrthio a thorri ei choes wnaeth Beti Morris, Ffordd Tanrhiw, a bu'n rhaid gwario cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ond braf iawn yw deall ei bod adre ac yn cael

gofal ardderchog gan y teulu. Pwyll rwan Bet a chymerwch bethau yn ysgafn yn ystod y gaeaf ma.

Capel Shiloh

Mae'r capel wedi bod ar agor ar gyfer gwasanaethau byr bob Nos Sul am 5 o'r gloch. Am fwy o fanylion gallwch weld yr hysbysfwrdd o flaen y capel.

Cydymdeimlwn gydag un o'n haelodau, sef Anwen Griffiths, Cysgod y Parc, Sling, a brofodd profedigaeth yn ddiweddar. Bu farw ei brawd yng nghyfraith yn Penarlwg.

Daeth profedigaeth i ran un arall o'n haelodau, sef Bethan Crowe a'r teulu, yn Sling. Bu farw mam Bethan oedd yn frodor o Lanberis, ac fe gollodd ei mam yng nghyfraith yn ddiweddar hefyd. Cydymdeimlwn gyda Bethan a'i phriod a'r plant Luke ac Esme.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Olga a Haydn Davies, Hen Berllan, Dob, Tregarth am ddod yn hen Nain a Taid i fachgen bach newydd sbon yn Las Vegas, Yr Unol Dalieithiau.

Ganed Haydn Ogwen Beer i Elizabeth a Christopher Beer ychydig cyn y Dolig. Mae Elizabeth yn ferch i Gwyn a Rene Davies, sef mab Olga a Haydn a'i wraig. Mae Gwyn wedi setlo yn Las Vegas ers blynyddoedd bellch ond mae'n amlwg nad ydion wedi colli nac wedi anghofio ei wreiddiau.

Llongyfarchiadau i chi i gyd fel teulu a chofion at Haydn Ogwen o Dyffryn Ogwen.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART

CAR CARE
CENTRE

STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Sefydlwyd 1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

*Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini*



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ 601031

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR
Llun a Mawrth - wedi cau
Mercher - Gwener 18:00 - 23:00
Sadwrn 15:30 - 00:00
Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

01248 602537



Enwau Dyffryn Ogwen

6

(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r fro wrth fynd ymlaen, felly bydd ychwanegiadau a newidiadau i rai o'r nodiadau fel mae'r gwaith yn datblygu. Trafodir enwau sy'n dechrau gyda'r llythrennau T, W, Y, y mis hwn.)



T

Tafarnau	adeiladau yn gwerthu diod/ bwyd
Tai'n Coed	yr adeiladau yn y coed
Tai'r Meibion	adeiladau ym meddiant y meibion/ llanciau
Tai Teilwriaid	adeiladau'r teilwriaid
Talgae	1. tir wedi ei amgau < atalgae 2. Cae pellaf
Talybraich	pen draw braich mynydd
Talysarn	pen draw llwybr, ffordd
Tanybwlech	o dan Bwlch Molchi
Tan y Foel	o dan un o'r moelydd Moel Faban a Moelyci
Tan y Fynwent	yn is na'r fynwent
Tan y Garth	o dan y gefnen
Tan Rhiw	o dan yr allt
Tan yr Allt	fel Tan Rhiw
Tai Isa	yr adeiladau isaf
Talybont	ger pen y bont
Tregerth	y fferm ar y gefnen
Tyddyn	daliad o dir, fferm
(y) Bartle	ym meddiant dyn gyda'r cyfenw Bartley
(Llanllechid a Llandygai)	Canol/Isaf/Uchaf
Cwta	1. Uchder 2. Pellter oddi wrth y ganolfan weinyddol
(Y) Ceiliog	ganolfan weinyddol
(y) Clawdd	crintachlyd, tir gwael
Dicym	ym meddiant dyn a lysenwyd yn Geiliog (tipyn o lanc)
Du	ger y clawdd
Elis Dafydd	eiddo dyn o'r enw? Dickham
Felin Hen	ying nghysgod yr haul
(y) Fertos/feitoes/defeitos aneglur, gan nad oes ffurf sicr ohono	eiddo Elis Dafydd
lolyn	yn perthyn i'r hen felin
(y) Lôn	eiddo lolyn - enw anwes ar lolo, sydd ei hun yn enw anwes ar lorwerth
	ar ochr y lôn (o Bont Twr i Llanllechid)
	Maes y Groes 1. y tir eang ger y groesffordd
	2. Y tir eang ble saif croes
	Sabel ym meddiant merch o'r enw Isabella
	Sache/ Sachre ym meddiant dyn o'r enw Sechareia
	(y) Wern y tir gwlyb, gwael
	hunan-egllurhaol
	o'i gymharu ag un newydd
	fel uchod
	tyddyn y tir garw
	tyddyn ger y lôn
	ty mwy na'r tai arferol
	1. tyddyn gydag ychydig bach o dir.
	2. Tyddyn gyda llawer o blanhigion egrai (clwt) ar ei dir
	tyddyn y twr canoloesol
	y ty yn y caeau
	tyddyn yn perthyn i'r felin
	y tyddyn yn y maes (Caradog)
	ty wedi ei wneud, wedi ei doi, efo llechi

Ty Gwyn

Ty Hen
Ty Newydd
Tyn Ffridd
Tyn lôn
Ty Mawr
Tyn Clwt

Tyn Twr

Tyn y Caeau
Tyn y Felin
Tyn y Maes
Ty Slates

W

Wern Fawr
Winllan

Y

Ysgubor Newydd hunan-egllurhaol
Ysgubor y Growton ysgubor yn perthyn i berson gyda'r cyfenw Growton

Ymddeol o'r Amgueddfa

Ceidwad Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis yn ymddeol ar ôl 40 mlynedd o rannu hanes y diwydiant llechi gyda'r byd

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn heriol i bawb. I staff Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, mae hefyd yn ddiwedd cyfnod wrth i Dr Dafydd Roberts – sydd wedi bod yn yr amgueddfa ers bron i 40 mlynedd – ymddeol ddiwedd Rhagfyr.

Wedi astudio Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth, dechreuodd Dafydd ei yrfa gydag Amgueddfa Cymru ym mis Hydref 1980 yn Adran Amaeth a Bywyd Gwerin, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

Penodwyd Dafydd yn Gymhorthydd Ymchwil gyda gofal dros Amgueddfa Lechi Cymru (Amgueddfa Chwareli Llechi Gogledd Cymru bryd hynny) ym 1981. Yn y cyfnod hwn cwblhaodd ei Ddoethuriaeth ar bwnc 'Cymunedau Chwarelyddol Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd, 1911–1939.'

Daeth yn Geidwad Amgueddfa'r Gogledd (yn cynnwys Amgueddfa Lechi Cymru a chyn-safle Oriol Eryri yn Llanberis) ym 1988 – swydd oedd yn berffaith iddo fel yr esboniodd:

"Mae fy nghysylltiad â'r diwydiant llechi'n mynd yn ôl sawl cenhedlaeth. Roedd fy nhad, fy nhaid a'm hen-daidd yn chwarelwyr felly mae'r diwydiant – ac yn arbennig ei bobl – wedi bod o ddiddordeb mawr i mi erioed. Pobl ardaloedd y chwareli yw'r bobl orau yn y byd yn fy marn i, felly roedd y cyfle i weithio yn Amgueddfa Lechi Cymru yn

berffaith i mi!"

Yn ystod ei gyfnod yn yr amgueddfa mae wedi llywio sawl datblygiad cyffrous – gan gynnwys ail-ddatblygiad yr amgueddfa ym 1998 diolch i gais llwyddiannus am grant o £1.6 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, oedd yn cynnwys symud teras o dai chwarelwyr i'r amgueddfa, ac atgyweirio Inclein Vivian (V2).

Yn dilyn lansio mynediad am ddim yn 2001, tyfodd nifer yr ymwelwyr blyneddol o 30,000 i tua 150,000, ac mae sawl pen-blwydd a dathliad cofiadwy wedi bod ar hyd y blyneddau. Ond un o'r projectau mwyaf cyffrous efallai yw'r cais diweddar am Statws Treftadaeth Byd i dirwedd llechi'r gogledd-orllewin. Cyngor Gwynedd sy'n arwain y cais hwn, ond mae Dafydd wedi bod yn rhan allweddol ohono o'r dechrau.

Dywedodd Dafydd: "Rwyf wedi mwynhau fy amser yn Amgueddfa Lechi Cymru yn aruthrol. Mae pob un diwrnod yn wahanol, ac mae'r misoedd diwethaf wedi dangos hynny yn fwy nag erioed. Ond yr amrywiaeth honno sydd wedi fy nghyfareddu dros y deugain mlynedd diwethaf. Y peth gorau am y swydd yw'r cyfle i esbonio i'n holl ymwelwyr hanes a phwysigrwydd y diwydiant rhyfeddol hwn – yn enwedig y bobl fu'n rhan o'r diwydiant, ac sy'n dal i fod.

Edrychaf ymlaen at 2021, a'r holl gyfleoedd newydd fydd gen i, ond hefyd – gobeithio – at glywed cyhoeddiad bod diwydiant llechi gogledd Cymru wedi'i ddynodi yn Safle Treftadaeth Byd. Bydd Amgueddfa Lechi



Cymru wrth galon y dehongliad wrth i ni gyflwyno hanes y chwareli i gynulleidfa fyd-eang."

Dywedodd David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru:

"Rwyf yn hynod o ddiolchgar i Dafydd am ei ymroddiad i Amgueddfa Lechi Cymru. Mae ei wybodaeth a'i angerdd am y diwydiant wedi bod yn arbennig o werthfawr dros y blyneddau a bydd yn gadael bwlch fydd yn anodd iawn ei lenwi. Mae wedi bod yn rhan o daith yr Amgueddfa ers y dechrau un, ac mae'r amgueddfa bellach yn un o brif sefydliadau diwylliannol ac atyniadau twristaidd y gogledd-orllewin. I'w arweinyddiaeth ef y mae llawer o'r diolch am hynny. Dymunwn yn dda iawn iddo yn ei ymddeoliad."



Dafydd a staff yr Amgueddfa ar achlysur dathlu 40 oed yr Amgueddfa yn 2012.

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda ☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

Capel Bethlehem

Mewn ymgynghoriad â'n gweinidog, Y Parchedig John Pritchard, rydym wedi penderfynnu peidio cynnal ein hoedfaon misol tan fis Ebrill, gan obeithio bydd sefyllfa'r pandemig wedi gwella erbyn hynny. Cofwch, os oes unrhyw fater yr hoffech ei drafod, mae croeso i chi ffonio Ysgrifennydd yr Eglwys, sef Neville Hughes, ar 01248 600853.

Nadolig Gwahanol

Aeth y gwyliau Nadolig rhyfeddaf yn hanes y mwyafrif ohonom heibio, a dyma ni ar drothwy blwyddyn newydd sbon. Er gwaethaf pob rhwystr, ymdrechodd pawb i ddathlu Gŵyl y Geni yn y ffordd orau bosibl ac, er bod y dathliadau ar raddfa llai nag arfer, roedd llawer ohonom yn ddiolchgar am athrylith y dechnoleg gyfoes i'n cysylltu efo'n hanwyliaid, lle bynnag y bônt.

Llongyfarchiadau

Roedd gan Mathew Parry reswm da i ddathlu, am iddo lwyddo ar y cynnig cyntaf yn ei Brawf Gyrru ychydig o amser cyn y Nadolig. Dymunwn flynyddoedd o yrru'n ddiogel iti, Mathew. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r dyfodol i Siôn Kendrick, 4 Lôn Ddŵr, ar ei ddyweddiad â Natalie Smith. Byddant yn ymgartrefu ym Mae Colwyn, lle mae Siôn yn athro yn Ysgol Eirias ers rhai blynnyddoedd, a Natalie, sy'n hanu o'r Bae, yn dysgu yn y Rhyl. Pob bendith iddynt.

Diolch!

Mawr ddiolch i Julian Johnson am ysgubo'r dail yn Nhwll Pistyll, rhag ofn i rywun lithro arnynt a thorri braich neu goes. Mae Julian

yn ddi-flino yn ei ymdrechion i gadw'r pentref yn daclus. Beth am benderfynu, eleni, y gwnawn hynny a fedrwn i'w gefnogi?

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Sheila, Millbank, Dolhelyg. Ar Noswyl y Nadolig, bu farw ei chwaer-yng-nghyfraith, Vera Owen o Heol Dewi, Bangor. Gweithiodd Vera'n galed am flynyddoedd lawer dros Glwb Pêl-droed Dinas Bangor. Roedd hi'n boblogaidd iawn, ac yn uchel ei pharch ymysg pawb a'i hadnabu.

Gyda thristwch, clywsom am farwolaeth yr annwyl Glyn Owen, Lodge Capel Graig, Y Faenol. Bu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd ar yr 20ed o Ragfyr. Roedd Glyn yn ŵr i Pat (Bailey, gynt) a fagwyd yn rhif 2 Dolhelyg, Talybont. Derbynna ein cydymdeimlad dwysaf, Pat, a hefyd dy ddwy ferch Shirley a Wendy, a'u gwŷr, George a Richard. Mae gan bobl hŷn Talybont atgofion melyn iawn o'r amser buost ti, dy ddiweddar brawd, Michael, a'th rieni, yn byw yma.

Ymadael

Mae Rhian Haf, a'i thair merch, Alys, Elen a Beca Nia, wedi gadael 36. Bro Emrys, i fyw ar Ynys Môn. Un o Lanfairynghornwy ydi Rhian, ac mae hi wedi dychwelyd, fel llawer iawn o blant yr Ynys, at ei gwreiddiau. Bydd chwith mawr ar eich holau yn Nhalybont, genod. Byddwn yn colli eich cyfeillgarwch, a'ch parodrwydd i fynd yr ail filltir bob amser. Pob bendith a iechyd da i chi yn eich cartref newydd.

A dyna'n dymuniad i bawb yn y Dyffryn ar gyfer 2021. Iechyd da, dedwyddwch a bendithion lu.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyma sypyn arall o gofnodion o ddyddiaduron Dafydd Ifans, Glanrafon, ac ymhelaethaf arnyn nhw er diddordeb.

Tachwedd 5, 1930: Miss Ann Thomas, Tyntŵr, yn marw'n sydyn iawn – 82 oed.

Roedd Ann Thomas yn byw yn Nhŷ John Iorc yn Nhyntŵr, y tŷ lle'r oedd yn rhannu'i chartref gydag ysbryd Archesgob Caer Efrog, yn ôl coel gwlad. Mwy amdani hi ymhellach ymlaen, ond hanes yr ysbryd i ddechrau.

Ganed John Williams, disgynnydd o deuluoedd y Penrhyn a Chochwillan, ger Tal-y-bont, yn 1582 (a bu farw yn 1650). Edrychid yn ffafriol arno ar y pryd gan y Brenin, yn gymaint felly fel y rhoddwyd iddo swydd Arglwydd-Geidwad y Sêl Fawr yn llywodraeth y dydd ac yna'n Archesgob Caer Efrog. Fodd bynnag, yn dilyn cyhuddo Siarl I o deyrnfradwriaeth a'i ddiennyddio yn 1648, ac o wybod bod Oliver Cromwell am waed y rhai fu'n agos at y Brenin, dywedir i John Iorc ffoi'n ôl i'w gynefin ar gefn ei geffyl gwyn, a'i fagiau cyfrwy'n llawn o'i 'drysorau'.

Tyfodd chwedl ddiddorol amdano'n cuddio yn simnai hen dŷ yn Nhy'n-tŵr nes oedd Pengryniaid Cromwell wedi gadael yr ardal. Er mwyn i ni gael darlun cliriach o guddfan John Iorc, mae'n debygol fod croglofft fechan ynghlwm wrth y simnai, gyda drws yn creu sêl rhyngddynt.

Yn ôl y stori y mae trigolion Dyffryn Ogwen wedi ei hadrodd

a'i throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth, roedd John Iorc wedi cuddio'i 'drysorau' yn y clwt o dir y tu ôl i'r tŷ. Dywedir iddo addo ar ei wely angau yn y Gloddaeth, Llandudno, y dychwelai fel ysbryd i ddweud wrth bwy bynnag oedd yn haeddu cael gwybod ble'r oedd wedi cuddio'i 'drysorau'. Ac fe wnaeth hynny, meddan nhw, ac ymddangos ganol nos un tro ger bron chwarelwr tlawd a rhannu'r gyfrinach efo fo. Yn hytrach na mynd ati'n syth bin i dyrchu yn ei ardd, aeth at ei waith yn y bore ond, gwaetha'r modd, cafodd ei ladd yn Chwarel y Penrhyn y diwrnod hwnnw.

A dyma ddŵad at Ann Thomas. Roedd hi'n chwaer i Benjamin Thomas, a ysgrifennodd y gân 'Moliannwn' pan oedd yn byw yn New Rockland, Canada – ond stori arall ydi honno!

Un noson ddechrau Tachwedd 1930, roedd Ann wedi cerdded i fyni i'r Gerlan i ymweld â brawd arall, Jeremiah. Daeth yn storm enbyd o wynt a glaw a chrefodd Jeremiah ar Ann i beidio â mentro i'r fath storm ac i aros yno tan y bore. Ei hateb pendant oedd: 'Na, dw i'n mynd adra – efallai mai heno y daw o!' Ond 'chawn ni byth wybod a ymwelodd John Iorc â'i hen loches y noson honno, gan i Ann druan gael ei threchgu gan y storm a chafwyd hyd iddi ar lawr wrth ymyl Bodforus, ychydig dros ganllath o'i chartref. Bu farw ar Dachwedd 5, 1930, fel y cofnododd Dafydd Ifans yn ei ddyddiadur.

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE

eboost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



CHWILAIR

Mynyddoedd Cymru

Yn y chwilair mis yma mae enwau DEUDEG O FYNYYDDOEDD CYMRU i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy llythren ar wahân).

NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG YW.

Dyma atebion chwilair Rhagfyr:- Abergwyngregyn; Betws Garmon; Bryn croes; Dwygyfylchi; Edern; Llanalhaearn; Llanystumdwy; Mellteyrn; Penmachno; Pistyll; Trefriw; Ynyscynhaearn.

E	R	W	Y	D	D	A	F	E	D	D	D	U	A	A	W	F	H	R	I
E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M
G	W	A	U	N	F	A	C	H	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V
A	D	D	N	A	P	A	U	M	O	E	L	Y	R	O	G	O	F	Q	U
S	O	F	N	O	I	N	Y	W	G	U	A	I	R	I	E	G	S	E	P
R	M	Y	N	Y	D	D	D	R	W	S	Y	C	O	E	D	P	Y	E	Q
Z	G	R	H	C	U	M	W	N	O	Y	R	I	A	S	Z	U	N	T	F
D	X	U	P	W	R	H	C	G	Q	H	H	W	R	E	H	Y	O	Y	E
E	G	E	O	M	H	E	O	P	T	C	T	W	C	B	R	B	C	U	U
J	P	L	T	M	I	B	V	V	A	D	A	C	B	O	B	F	R	F	O
G	J	V	I	I	E	R	R	B	X	F	I	M	L	H	T	T	O	S	K
O	P	W	R	H	C	M	N	K	G	C	B	E	O	R	C	X	V	R	Y
H	S	T	L	M	R	Y	E	I	F	Y	W	J	D	Z	A	H	B	C	W
O	S	E	C	R	W	A	N	I	X	E	N	I	L	X	F	J	J	M	B
W	O	T	E	L	X	E	M	D	N	X	K	F	U	P	D	C	Q	Y	O
M	I	L	E	F	R	E	R	Z	Q	R	O	C	T	D	D	G	W	S	L
Z	E	O	B	A	E	A	J	K	J	C	L	N	L	R	Y	V	O	G	J
P	M	W	P	E	N	Y	G	A	D	A	I	R	F	A	W	R	P	G	S
O	T	S	A	I	L	I	F	Y	D	D	E	N	R	A	C	W	J	J	Q
U	L	F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W

Cerdyn Angladd

gan Andre Lomozik

Tua dechrau'r flwyddyn cysylltodd Dafydd Vaughan Ellis, Tregarth, a mi yn dweud fod ganddo gerdyn angladd yn ei feddiant, ac yn holi a oeddwn i â diddordeb i'w gael. Roedd dau beth yn ddiddorol am y cerdyn, sef ei fod yn dyddio o 1866, ac wedi cael ei fframio, er mwyn cael ei arddangos ar wal, ac mae rhestr o enwau wedi cael eu ysgrifennu ar gefn y ffrâm.

Cerdyn er cof am Mary Jones a fu farw Gorffennaf 1866 yw'r cerdyn. Dyma beth sydd wedi ei ysgrifennu arno:-

'Er cof am Mary Jones, Gwraig William Jones, Crydd, Braich Melyn, Yr hon a fu farw, Gorphenaf 2, 1866, Yn 42 Mlwydd Oed, Ac a gladdwyd yn Mynwent Glan Ogwen, Gorph. 6.'

Wrth ymchwilio i gyfrifiad 1861, gwelais fod William a Mary yn byw yn Pont y Tŵr, ac roedd William yn wreiddiol o Sir Ddinbych, a Mary o Rhuddlan. Ar ôl marwolaeth Mary mae'n debygol fod William wedi dychwelyd



yn ôl i Ddinbych, oherwydd cawn ef yn byw gyda'i frawd a'i chwaer, sef John ag Ann Jones, yn ôl cyfrifiad 1871. Mae ei frawd yn cael ei ddisgrifio fel 'Master shoemaker'. Roedd Ann yn gofalu am y cartref ac wedi cael ei disgrifio fel bod yn fyddar.

SAMARIAID
Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATŷ.

Bysus Gwyrd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

Creu recordiad rhithiol

Cyn y Nadolig bu Côr y Penrhyn yn cymryd rhan mewn recordiad o'r garol Nadolig 'O Ddwyfol Nos' gyda Band Pres Fairey o Stockport, ger Manceinion. Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 doedd hi ddim yn bosibl i'r band a'r côr gyfarfod felly bu raid i'r ddau gorff recordio eu rhannau'n unigol.

Daeth y band i gysylltiad â'r côr wedi i Adam Cooke, arweinydd y band glywed y côr yn perfformio yn Stavanger, Norwy llynedd. Roedd Adam ar y pryd yn arwain Band Pres Stavanger ond ers Mis Mai 2020 mae wedi dod yn ôl i Loegr i arwain band Fairey. Daw'r enw Fairey o'r hen gwmi awyrennau Fairey Aviation a aeth yn fethdalwr yn y 70au ond mae'r enw'n dal i fynd ar gwmi



Owain Arwel Davies, arweinydd Côr y Penrhyn ydy'r unawdydd ar y recordiad rhithiol. Yn y paneli ar y dde gwelir rai o aelodau Band Fairey yn yr hanner uchaf ac aelodau'r côr yn yr hanner isaf.

sy'n cynhyrchu pontydd ar gyfer defnydd milwrol.

Derbyniad gwresog


Cafodd y recordiad rhithiol dderbyniad ardderchog gan bobl

ar Facebook, Twitter a YouTube gyda miloedd yn gwrandao a gwyllo'r perfformiad o fewn ychydig oriau a dyddiau. Wrth lansio'r recordiad dywedodd Band Fairey eu bod yn falch o

gael cyd-weithio gyda'r côr er bod dros 100 milltir rhyngddynt yn ddaearyddol.

Gwnaed y gwaith o drefnu'r gerddoriaeth a pharatoi recordiadau lleisiol unigol gan Owain Arwel a golygwyd y tapiau gan Caleb Rhys Jones, Is-arweinydd Côr y Penrhyn. Bu Alun Davies â rhan flaenllaw yn y cynhyrchiad hefyd, gan iddo dreulio oriau yn gosod offer recordio a ffilmio yn Neuadd Ogwen ac yn ei gartref, er mwyn i'r aelodau llai hyderus gyda thechnoleg gael mynd draw yn unigol i recordio eu cyfraniadau.

Dyma enghraifft arall o'r côr yn mentro i greu rhywbeth gwahanol ac yn llwyddo i ennill cyfeillion a chefnogwyr o'r newydd. Diolch i holl aelodau a swyddogion y côr a'r band am eu gwaith arloesol.



Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Richard Owen sy'n Rheolwr Peiriannyddol wrth ei waith bob dydd.

- 1. Be' ydy dy enw llawn?** Richard Pierce Owen
- 2. Oed?** 38
- 3. Gwaith** Rheolwr Peiriannyddol yn Nhrawsfynydd ers ychydig o fisoedd, a cyn hynny wedi bod yn Oruchwyliwr Sifft Peiriannyddol yng Ngorsaf Niwclear Wylfa ers rhyw 10 mlynedd.
- 4. Lle wyt ti'n byw?** Bethel, Caernarfon
- 5. Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Llanengan Pen Llyn
- 6. Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifo orau?** Gwirion, blin a hapus yn ôl y plant! Licio meddwl fy mod i'n berson reit bositif a ddim yn gor-boeni am bethau sy' tu allan i fy rheolaeth. Mae hynny wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn ystod 2020!
- 7. Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** Ers 2006 (dwi'n meddwl!)
- 8. Pa lais wyt ti?** Bas 2
- 9. Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Dwi'n mwynhau canu mewn côr a hefyd wrth fy modd efo'r ochor gymdeithasol

ohono. Cyfarfod ag Arwel ac Elfyn ar noson allan ym Methesda a chael ordros i droi i fyny yn Ysgol Pen y Bryn nos Lun wnes i (Rôn i'n byw yn St. Annes ar y pryd).

- 10. Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Mae dewis yn anodd! Dwi'n cofio yn fy ymarfer cyntaf i mi glywed 'Y Greadigaeth' am y tro cyntaf ac ias ym mynd i lawr fy nghefn!
- 10. Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Ddim un yn benodol ond yn hoff iawn o wahanol fathau o gerddoriaeth. Yn aml iawn mi fyddai'n gadael i Alexa ddewis rhywbeth i mi.
- 11. Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Ddim barn ond mae'n braf gweld bandiau Cymraeg yn gwneud yn dda.
- 12. Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Mi wnes i fwynhau canu hefo 'The Good, The Bad and The Queen' yn enwedig yn y London Palladium. Yn aml iawn y canu yn y bar wedyn sy'n gwneud taith dda.
- 13. Pa ddi-ddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Mae'r plant yn fy nghadw'n brysur fel arfer ond mi fyddai'n hoff o wneud unrhyw beth "hands on".

- 14. Oes yna rywbeth faset ti'n hoff gweld y côr yn ei wneud?** Dwi'n meddwl ein bod yn lwcus iawn fel côr bod gynnion ni bwyllgor brwdfrydig ac yn enwedig bod Arwel gynnion ni fel arweinydd. Mi hoffwn weld y côr yn cario 'mlaen fel rydan ni.
- 15. Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Gobeithio y cawn ddod yn ôl at ein gilydd mor fuan â phosib unwaith fydd y brechlyn wedi gwneud ei waith. Tan hynny, cadwch yn ddiogel bawb!



Richard Owen efo Damon Albarn yn Glastonbury

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

O Gofnodion Cyngor Llanddeiniolen - Cynllun "Awards For All"

Derbyniwyd llythyr gan Elwyn Jones ynglŷn â'r cynllun yma sydd yn cael ei ariannu gan grant o'r gist Loteri. Cynllun lle mae grwpiau o wirfoddolwyr wedi eu sefydlu mewn pentrefi i gefnogi ac i ddsbarthu pecynnau bwyd syml yn wythnosol. Ni fydd angen i'r Cyngor Cymuned wneud dim ond derbyn yr arian, a thalu yn fisol am y bwyd o'r arian sydd wedi ei glustnodi. Wedi trafodaeth, penderfynwyd ei fod yn syniad gwych a derbyniwyd y cais. Bydd y Cynghorydd Elwyn Jones yn gobeithio felly derbyn arian o'r gist loteri (os yn llwyddiannus), a bydd yn dosbarthu nwyddau i'r henoed dros 65 ym Mhenisa'r-waun a Rhiwlas. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig fod pawb sydd yn disgyn i'r categori yn cael y cynnig. Pob hwyl gyda'r cais Elwyn!

Annus Horribilis

Pwy sy'n cofio Annus Horribilis, yn 1992? Y Frenhines a lefarodd y geiriau yma yn 1992 yn ei haraith Nadolig. Yn ystod y flwyddyn honno chwalodd priodas dau o'i phlant. cyhoeddwyd

llyfr am Diana gan Andrew Morton, llyfr a ddadlenodd dipyn am ei bywyd a'i phriodas. Hefyd bu tân mawr yng Nghastell Windsor. Yn sicr y mae 2020 wedi bod yn Annus Horribilis inni i gyd. Ers Mis Mawrth mae wedi bod yn gyfnod anodd a heriol, gyda miloedd wedi colli eu hanwyliaid a'r gweithwyr yn ein hysbytai yn gweld cyfnod anodd iawn, ond yn dal ati. Mae'n dyled yn fawr iddynt. Ond mae'r cyfnod yma wedi dod a phobl at ei gilydd ac yn barod i helpu eraill.

Yn anffodus y mae 2021 yn cychwyn gyda'r Cofid-19 ar ei anterth unwaith eto ac os am ei goncro mae'n rhaid inni gadw at y rheolau a bod yn ofalus.

Dymuno'n dda

Braf yw clywed fod Eiliw Mai yn well wedi iddi hi ddiodef o'r feirws yma a threulio peth amser yn yr Ysbyty. Bu'n gyfnod pryderus iawn i'w rhieni, Ieuan a Donna. Bellach mae'n ôl yn ei gwaith gyda Radio Cymru yn darllen y newyddion. Rydym yn falch dy fod wedi gwella a chymer ofal!

Atgofion Nos Calan yn Rhiwlas

Rydwi'n sicr bod rhai o oedran arbennig yn y pentref yn cofio am y nosweithiau a gawsom yn y Neuadd ar Nos Calan, er mai "Watch Night" oeddem yn galw'r noson arbennig

honno. Byddai nifer dda iawn yn mynychu bob blwyddyn. Roedd bwyd ar gael, ac wedi bwyta a chadw'r byrddau byddai gemau i'r plant a byddai'n noson hwyliog iawn. Byddai'r gemau a'r hwyl yn dod i ben fel roedd yn nesu at hanner nos a phawb yn ymdawelu. Doedd dim sŵn Big Ben, ond rhywun yn edrych ar ei oriawr a Dafydd Arfon Owen yn dweud fod y flwyddyn newydd wedi cyrraedd ac yna yn ein harwain mewn gweddi.

Roedd arferiad arall hefyd, wedi'r noson yn y Neuadd byddai rhai'n mynd o amgylch y pentref yn dwyn giatiau ac ni fyddai pob un yn dod i'r golwg y bore wedyn chwaith! Byddai'r ymwelydd cyntaf i'r cartref ar fore Calan yn bwysig hefyd, ac yn draddodiadol byddai dyn â gwallt tywyll yn dod dros y trothwy yn dod â lwc dda i'r teulu. Cofiaf mam yn sôn am Dafydd ei brawd, un tywyll ei wallt, yn mynd i dai y teulu gan obeithio dod â lwc iddynt. Traddodiad arall oedd mynd o dŷ i dŷ yn y bore yn casglu calennig ac roedd mam yn sôn fel y byddai'n mynd o amgylch y pentref gan ganu pennill a gofyn am galennig. Yn anffodus roedd yr arferiad yma wedi diflannu yn fy nghyfnod i.

Os oes atgofion gan eraill am y noson yn y Neuadd, ysgrifennwch bwt i'r Llais os gwelwch yn dda.

Blwyddyn Newydd Dda, yn sicr blwyddyn well i bawb. Byddwch yn ofalus!

Y Brechlyn wedi cyrraedd y Dyffryn

Mae Canolfan Feddygol yr Hen Orsaf wedi cyhoeddi fod y gwaith o frechu cleifion gyda brechlyn Covid-19 wedi cychwyn.

Mewn neges ar eu cyfrif Facebook, dywedwyd y bydd cleifion mewn cartrefi gofal yn cael eu brechu gyntaf, cyn cychwyn brechu unigolion sydd yn 80 oed neu yn hŷn.

"Bydd y cleifion yma'n cael eu galw i'r feddygfa neu i ysbyty Enfys, Bangor," meddai'r neges.

"Fe fydd tîm y nyrsys cymunedol yn ein helpu i frechu y cleifion sydd yn gaeth i'w cartref.

"Byddwn yn cysylltu hefo'r cleifion yn eu tro, felly plis peidiwch â ffonio'r feddygfa,

gan fod y llinellau ffôn yn brysur iawn, ac mae angen i'r staff fedru derbyn galwadau gan y cleifion hynny sydd angen cyngor meddygol.

"Yr ydym yn gweithio mor gyflym â phosib, ac yn cydweithio hefo'r

meddygfeydd eraill yn Arfon a Môn yn ogystal â'r Bwrdd Iechyd.

"Mae'r gwaith yn ddibynnol ar faint o'r brechlyn sydd yn cael ei ddsbarthu i ni."

Newyddion gobeithiol i bawb ar ddechrau'r flwyddyn – gan obeithio am well 2021!



TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Ysgol Llanllechid

Ela

Cwta ddwy flynedd yn ôl, doedd Ela ddim yn teimlo'n dda; yn teimlo'n flinedig ac yn gweld ser o flaen ei llygaid. Trefnwyd apwyntiad gyda'r optegydd, a chafodd Ela fach ei chyfeirio yn syth i Ysbyty Gwynedd. O ganlyniad i'r profion gwaed a gynhaliwyd, derbyniwyd y newyddion ysgytwol fod gan Ela diwmor ar yr ymenydd. Roedd rhaid cymryd steroids yn syth, gan nad oedd ei chorff yn cynhyrchu cortisol. Roedd rhaid gweithredu'n syth bin, ac aeth y teulu adref am noson, pacio bagiau a threfnu fod neiniau a teidiau wrth law i warchod Lili, cyn ei throi hi'r diwrnod wedyn am Alder Hey.

Derbyniodd Ela lawdriniaeth ym mis Ionawr 2019, lle cafodd dynnu'r tiwmor drwy'r trwyn (transsphenoidal). Aethpwyd am scan cynnar mis Mawrth 2019, gan fod symptomau wedi dychwelyd, a gwelwyd fod y tiwmor wedi tyfu'n ôl, ond y tro hwn dywedwyd nad oedd modd gwneud llaw drinaeth bellach.

Newidiwyd bywydau'r teulu bach o Ebrill 2019 hyd at Fehefn 2019 pan dderbyniodd Ela Proton Beam Therapy yn Yr Almaen (Essen). Roedd hyn yn golygu triniaeth am bum diwrnod yr

wythnos am gyfanswm o chwe wythnos. Bu Ela yn hynod ddewr drwy'r cyfan oll, gan orwedd yn hollol, hollol lonydd er mwyn i'r driniaeth wneud ei waith, ac roedd Lili wrth law pob amser yn edrych ar ôl ei chwaer fawr. Yn dilyn hyn, dangosodd y scan nesaf fod y tiwmor yn lleihau, ac mae Ela yn parhau i dderbyn scaniau yn rheolaidd, a bydd yr un nesaf yn Alder Hey ar Ragfyr 10fed.

Yr enw ar y tiwmor ydi craniopharyngioma, a chan ei fod wedi ei leoli ar y 'pituitary gland', mae wedi achosi niwed i'r 'gland' yma, ac felly mae Ela yn byw gyda chyflyrau meddygol - 'adrenal insufficiency', 'growth hormone deficiency' a 'hypothyroidism' ac yn gorfod cymeryd meddyginiaeth dyddiol (tabledi a pigiaidau). Gallaf ddweud â llaw ar fy nghalon na wneuch gyfarfod hogan ifanc mor ddewr yn unman, ac mae Lili hefyd yn un i'w chanmol yn fawr am fod yna'n gefn i'w chwaer.

Genod bach arbennig iawn yw Ela a Lili, sy'n dod i'r ysgol pob dydd a gwên ar eu hwynebau, ac i ddweud y gwir, yn codi ein calonau ni i gyd yma! Dymunwn bopeth gorau i'r ddwy fach i'r dyfodol.

Wil a'r Hogia'



Wrth ddarllen straeon Wil Williams yn y Llais mi gofiais fel y byddai'n ffonio yma yn aml i sgwrsio am Fethesda, trafod Llais Ogwan a holi am Hogia' Llandegai. 'Roedd yn dipyn o fêts efo'r Hogia' ac yn dod i wrando arnom ni pan fyddem o fewn cyrraedd i Gaerdybi. Fo oedd yn gyfrifol am y gwahoddiad i Ron a finna' i gymryd noson mewn cymdeithas capel yng Nghaerdybi yn 2002.

Ar ddiwedd y noson roedd rhywun yn tynnu lluniau, a doedd 'na ddim trafferth i berswadio Wil i ddod atom, nag i afael yn fy ngitâr i chwaith. Mae'n amlwg ei fod wrth ei fodd efo'r llun oherwydd iddo gael gwneud calendr ohono ar gyfer 2003. Ie, dipyn o gymeriad! (Nev.)

Un dydd ar y tro: Cyfres fideo i gynnal llesiant ac iechyd meddwl plant

Mae Leisa Mererid, yr athrawes ioga ac ymwybyddiaeth ofalgar boblogaidd wedi creu cyfres o fideos dyddiol i blant cynradd a fydd yn eu cynorthwyo i gynnal llesiant ac iechyd meddwl.

Yn ôl Ifan Jones, Swyddog Datblygu Iaith gyda Hunaniaith: Menter Iaith Gwynedd, sy'n trefnu a noddi'r gyfres: "Mi fydd y fideos yn cael eu darlledu yn ddyddiol, ddydd Llun tan ddydd Gwener yn ystod y tymor rhwng 4 Ionawr a 26 Chwefror 2021 ar sianel ddigidol AM Cymru.

"Mae gan Leisa Mererid sgiliau a phrofiad arbennig yn y maes yma ac roeddem yn awyddus i ychwanegu at yr amrediad o adnoddau sydd ar gael yn y maes yma drwy gyfrwng y

Gymraeg."

Meddai Leisa Mererid, sy'n athrawes ioga brofiadol ac wedi cymhwyso fel ymarferydd ymwybyddiaeth ofalgar i blant: "Cyfres o ymarferiadau byr ac effeithiol fydd cynnwys y fideos i gefnogi iechyd a lles disgyblion, athrawon a cymorthyddion. Mae yna saith wythnos o ddeunydd yn y pecyn i gyd fynd â thymor yr ysgol.

"Bwriad yr ymarferion yw cyflwyno loga ac Ymwybyddiaeth Ofalgar (Meddylgarwch) i'r cwricwlwm mewn ffordd syml a hwyliog, gan wneud hynny 'un dydd ar y tro'."

Mi fydd patrwm penodol i'r rhaglen sy'n dilyn trefn dyddiau'r wythnos:



Mae Leisa Mererid wedi creu cyfres o fideos dyddiol i blant cynradd i helpu eu llesiant ac iechyd

Dydd Llun Llesol,
Dydd Mawrth Mynegi,
Dydd Mercher
Meddylgarwch,
Dydd Iau Ioga,
Dydd Gwener Gorffwys.

Bydd yr ymarferion byr yn paratoi'r plant ar gyfer y dydd sydd o'n blaenau. Mi fydd posib ail ymweld â'r ymarferion sawl gwaith yn ystod y dydd fel bod

angen i helpu angori'r dysgu.

Mae gwrs lyfr wedi ei baratoi gan Leisa fydd yn cefnogi athrawon a chymorthyddion dysgu i arwain eu dosbarthiadau drwy'r ymarferion; fe'i cynhyrchwyd gyda nawdd Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Cyngor Gwynedd. Cysylltwch â Hunaniaith ar Hunaniaith@gwynedd.llyw.cymru i gael copi PDF ohono.

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
☎ 01248 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. ☎ 01248 601526

Blwyddyn newydd dda!

'Roedd 2020 yn flwyddyn hegar mewn sawl ffordd i gymaint o bobl am wahanol resymau. Bu'n rhaid cydymdeimlo gyda gymaint o deuluoedd wedi iddynt golli anwyliaid hen ac ifanc. 'Roedd 'na deimlad hefyd o gymuned ar goll wrth i bentref prysur ddod i stop ond hefyd teimlad o bentref yn agosau wrth i ni fedru helpu'n gilydd boed hynny'n ymarferol neu drwy godi calon o bell. Waeth beth yw eich barn am y flwyddyn sydd wedi mynd heibio, dwi'n siŵr y bydd pawb yn cytuno ei bod wedi bod yn un rhyfedd iawn ac yn un mae pawb yn falch o'i gweld yn pasio.

Wrth i ni edrych 'mlaen i 2021, dwi'n gobeithio y byddwn yn gweld pethau'n dychwelyd i "normal" yn raddol ac y bydd bwrlwm parhaus y Dyffryn yn dychwelyd dros y misoedd nesaf. Felly, dyma gyfle i ddweud blwyddyn newydd dda a gwell i bawb yn Gerlan a thu hwnt. Mae pethau yn mynd i wella a daw eto haul ar fryn.

Adref o'r Ysbyty

Bu Linda Brown, Gwernydd, yn Ysbyty Gwynedd am dros fythefnos ym mis Rhagfyr. Cafodd ddod adref chydig ddyddiau cyn Dolig ac mae'n cryfhau'n ddyddiol ers hynny. Hoffai ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cysylltu i ddyddio'n dda iddi dros yr wythnosau diwethaf. Brysia wella Linda!

Ysbyty

Gyrrwn ein cofion cynnes at Robin Loraine Hughes, Freithwen Isaf sydd yn Ysbyty Gwynedd. Bu yn yr ysbyty am 10 wythnos cyn y Nadolig ac mae wedi gorfod dychwelyd yno'n anffodus. Mae ei deulu a'i ffrindiau i gyd yn cofio ato ac yn gobeithio y bydd yn cael dod adra'n fuan.

Cofio'r Sul

Pennod 2

(Yn y stori yn ein rhifyn diwetha' roedd Wil a dau ffrind wedi mynd i'r chwarel heb ganiatâd un pawns Sul ond fe'u daliwyd gan un o'r goruchwylwyr. Bygythiai hwnnw fod Rowlands, y plisman lleol yn disgwyl amdanyn nhw ar ben y chwarel.)

Nid oedd sôn am Rowlands y plisman ac aethpwyd â'r tri ohonom i gaban wedi ei godi o lechi hirion a phennau lliflau o'r felin gyfagos. Yno'n disgwyl amdanom roedd tri gŵr hollbwysig yr olwg fel barnwyr yn yr Old Bailey yn Llundain. Mae'n debyg mai dyna'r tro cyntaf i ni fel triawd fod o flaen ein gwel. Er hynny, sylweddolais fy mod yn gyfarwydd â gweld y gŵr a eisteddai yn y canol. Roedd ganddo het galed a mwstas trwchus fel cyrn beic o dan ei drwyn. Craffai yntau arnaf dros ei sbectol a hynny am beth amser, fel pe bawn yn anweledig bron! Sylweddolais yn y man ei fod yn fy adnabod, ond erbyn hynny ni chymerai lawer o sylw ohonof. Yn sydyn, fel ergyd o wn a hwnnw wedi ei anelu ataf, meddai'n awdurdodol, "Be 'di dy enw di was?" a minnau â lwmp fel marblen yng nghorn fy ngwddf.

"Lle wyt ti'n byw Wil?" gofynnodd wedyn. Roeddwn wrthi'n bustachu i roi'r cyfeiriad iddo pan dorrodd ar fy nhraws gyda'r cwestiwn mawr, "I ba gapel wyt ti'n mynd?"

"Siloam syr," meddwn innau lond fy ngheg ac mor ddewr ag y gallwn fod, gan obeithio ei blesio. Daeth eiliad o ddistawrwydd cyn i mi brofi min ei dafod, "Lle mae dy dad yn gweithio was?"

"Yn.... y... y... yn y chwarael syr" meddwn yn grynedig iawn erbyn hyn. Cododd yntau'r 'register' gan ei ddal tuag ataf a gwelwn enw 'nhad wedi ei gofrestru arno'n eglur. Gydag osgo ac awdurdod a chan syltu i'm llygaid, meddai, "Wel, sac i'r boi yna," a rhoddodd strôc fawr ddu â'i bensil ar gyfer enw 'nhad. Roeddwn wedi fy syfrdanu. Fy nhad i golli ei waith yn y chwarel am fy mod i wedi tresbasu yno ar bnawn Sul. Roedd hi ar ben arnaf. Holwyd fy nau gyfaill ar yr un llinellau a minnau'n gwrando'n llaith fy llygaid. Ond yna, fel ton o heulwen, daeth gwên drugarog i wynebau'r tri barnwr, ac meddai dyn y mwstas, "Wel rŵan hogia, dwi am i chi addo dau beth i mi. Peidio dod ar gyfyl y chwarel 'ma eto a chofiwch fynd i'r capel heno."

Dyma driawd balch yn ateb ac yn addo'n bendant, "Mi awn i'r capel heno syr." Addewid hefyd na welai neb ôl troed yr un ohonom yn Chwarel y Penrhyn ar ôl hynny.

Ymhen dwy awr roeddwn yn eistedd yn sant i gyd yn sedd y teulu yng nghapel Siloam gyda 'nhad a mam a'm chwaer yn gwrando ar W.J. y pen blaenor yn arwain y seiat. Wrth iddo gyhoeddi'r fendith gwelwn y wên anwylaf ganddo ac roeddwn yn sicr mai er mwyn yr un a fu rai oriau ynghynt yng nghrombil y chwarel, y daeth y wên honno.

Cadwais fy ngair i'r hen flaenor. Fu mi ddim yn y chwarel ond rwy'n dal i gapela. Sul hyfryd ydoedd yng nghwmni'r hogia a hoelion wyth Siloam a thrwy ddfafnau oerion a niwl y blynyddoedd, teimlaf wresogrwydd eu cyfeillgarwch hyd heddiw.

JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teisiwr

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995



Wil Bach pan oedd o'n gweithio yn Siop Tomi Jones y Barbar yn y 30au.

Ysgol Penybryn ac Abercaseg


Nid dwy ysgol ydym heno
Gyda'n gilydd un min nos
Ond dau safle wedi uno
Dan un hen seren dlos.



Llongyfarchiadau i blant Penybryn ac Abercaseg ar eu perfformiad yng nghyngerdd Nadolig yr ysgol eleni. Thema'r ddwy ysgol neu yn hytrach y ddau safle oedd 'Un Seren' a phenderfynodd bob dosbarth gyflwyno a dehongli'r neges mewn sawl ffordd ddifyr. Roedd yn hyfryd gweld y plant yn trin a thrafod yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yn ystod y cyfnod heriol yma. Diolch o galon i Neuadd Ogwen am recordio'r plant yn perfformio ar lwyfan fawr gan adael i ni ddefnyddio'r adnodd arbennig yma yng nghalon ein cymuned. Roedd yn wir yn brofiad amhrisiadwy i blant Penybryn ac Abercaseg, ac er yr holl gyfyngiadau mi gafodd ein teuluoedd hefyd y fraint o fwynhau'r perfformiad ar fideo gartref!



Llongyfarchiadau gwresog i Celyn Rhys o ddosbarth Glyder am fod yn un o enillwyr cystadleuaeth creu cymeriad ar gyfer cyfres newydd Deian a Loli. Roedd dros 170 o ymgeiswyr, ac mae Celyn yn un o dri enillydd gyda'i chymeriad Lili'r Wyddfa.



Llongyfarchiadau i Betsi hefyd o ddosbarth Elidir am gael ei dewis i leisio cartŵn newydd sbon 'Sol' a gafodd ei ddarlledu ar dros y Nadolig. Cafodd hefyd ei ddarlledu yn Gymraeg efo is-deitlau Saesneg ar CiTV! Rydym mor ofnadwy o falch o Celyn a Betsi!

Bu plant Glyder a Glyder Fach yn lwcus iawn o gael sesiwn Playmaker a Fftrwydd gan griw Chwaraeon am Oes. Roedd yn sesiwn ddiddorol iawn a chafodd y plant gyfleoedd i greu gemau chwaraeon eu hunain gan ddefnyddio amrywiaeth o offer. Yna, buont yn dysgu am sut roedd gwahanol chwaraeon wedi'u haddasu ar gyfer pobl gydag anabledau. Roedd yn hynod ddiddorol ac ymatebodd y plant yn wych.

Mae'r plant wedi bod yn brysur iawn dros y mis diwethaf - rhwng yr ymarfer a pherfformio ein sioe Nadolig, creu cardiau ac

addurniadau di-ri yn ogystal â dathlu diwrnod siwmpwr Nadolig a mwynhau cinio Nadolig bendigedig Anti Marian ac Anti Sandra! Hefyd, cawsom ymweliad ac anrhegion gan Sion Corn yn ogystal â heriau dyddiol gan gorachod bach Ffrydlas gan gynnwys anrhegion a llawer iawn, iawn o gemau!

Er gwaethaf y tywydd garw, bu rhai o'r disgyblion yn plannu coed ffrwythau ar dir ysgol Abercaseg. Diolch o galon I Bartneriaeth Ogwen am y coed!

Hoffai'r ysgol ddiolch i gwmni Howdens, Llandegai a Tecso Bethesda am eu rhoddion caredig i'r ysgol dros gyfnod yr ŵyl. Hefyd, diolch i rieni a staff yr ysgol am gyfrannu nwyddau mor hael i breswylwyr Plas Ogwen yn ystod y cyfnod anodd yma iddynt.

Dymuna Ysgol Penybryn ac Abercaseg ddymunio Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr Llais Ogwan!

Ysgol Tregarth

Parti ac ymweliad pwysig!

Cafodd dosbarth meithrin a derbyn brynhawn hyfryd yn dathlu'r Nadolig – parti, dawnsio ac ymweliad gan Siôn Corn ei hun (o bellter wrth gwrs!) Aeth ar daith o amgylch tu allan yr ysgol yn dymuno'n dda i'r plant cyn gadael anrheg fach iddynt.

Sioe Nadolig rithiol DoReMi

Cafodd y Cyfnod Sylfaen sioe Nadolig arbennig ar-lein yn ystod yr wythnos olaf gan 'DoReMi'. Roedd pawb wedi mwynhau canu, dawnsio a chael ymweliad gan Siôn Corn. Roedd hi'n braf gweld y plant yn mwynhau eu hunain ar ddiwedd tymor anodd i bawb.



Cinio Nadolig

Diolch i Anti Shirley ac Anti Fiona am baratoi cinio bendigiedig i ni eto eleni. Roedd pawb wedi mwynhau'r wledd ac yn diolch i'r ddwy am eu gwaith drwy'r flwyddyn.

Cyngerdd Nadolig

Un o uchafbwyntiau ein blwyddyn ysgol yw'r cyngerdd Nadolig, ond er y cyfyngiadau eleni roeddem yn benderfynol o gynhyrchu cyngerdd i'r rhieni. Felly, bu pob dosbarth wrthi'n brysur yn ymarfer, yn ffilmio ac yn golygu er mwyn creu cyngerdd gwych eto eleni. Diolch i'r plant am weithio yr un mor galed i gynhyrchu cyngerdd rhithiol – roedddech chi'n wych!

Siwmpwr Nadolig

Mae'r ysgol wedi cefnogi elusen 'Achub y Plant' eto eleni drwy ofyn i bawb wisgo siwmpwr Nadolig i'r ysgol ar ddydd Gwener

Rhagfyr 11eg. Roedd pawb yn edrych yn wych a lliwgar iawn yn eu siwmpwr. Casglwyd £60.

Cyswllt gyda Griffin Primary School (Llundain)

Yn ystod yr wythnosau olaf, cafodd dosbarth Ogwen gyfle i wneud cyswllt gyda dosbarth blwyddyn 3 a 4 o Griffin Primary School draw yn Llundain. Roedd ein disgyblion wedi gyrru cerdyn Nadolig i ddisgybl o'r ysgol yn Llundain, ac roedd ein plant ni wedi derbyn cerdyn yn ôl hefyd. Ychydig o ddyddiau wedyn, cawsom gyfle i ddod wyneb yn wyneb a'r dosbarth dros sesiwn zoom. Cawsom gyfle i gynnal sesiwn mathemateg pen rhwng y ddau ddosbarth gan edrych ar hafaliadau, a chwarae gemau megis bingo a dyfalu pwy. Edrychwn ymlaen at barhau gyda'r cyswllt yma yn y flwyddyn newydd.



Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Manylion Cyswllt
Cyngorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafydddownen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinallpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

[f @CyngorwyrDyffrynOgwen](https://www.facebook.com/CyngorwyrDyffrynOgwen)

[@PlaidCymruOgwen](https://www.youtube.com/channel/UC...)

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

Nyth y Gân


MAB Y CHWARELWR

Magwrfa dlawd, gyffredin
Gadd ef 'rôl colli'i dad
Fel nifer o blant eraill
O drefydd a chefn gwlad.

Ei gariad fu at lyfrau
A than y gannwyll fain
Fe gafodd drwy astudio
Wybodaeth gan y rhain.

Ei fam ac ef ymdrechodd
Gan wneud heb ddim sawl tro
Er mwyn i'r coleg dderbyn
Un fagwyd yn y fro.

Llwyddiannus fu'r astudio
Dros gyfnod gweddol faith,
A gyrfa bur ysgafnach
A ddaeth o'r newydd daith.



Y GIGFRAN

Y waliau sydd i'w gweled, a sŵn hen
Sy'n hynod i'w glywed;
Ar gwr y tir agored
Yno'n hwyr y frân a hed.

Y MYNYDD

Hir adlais ddaw i'w rodle o urddas
A harddwch cadarnle;
Draw'n y cwm mor llwm yw'r lle
A hydref wrth ei odre.

Y DDERWEN

Am fisoedd mae'r grom fesen yn y pridd
Wrth fôn praff y dderwen;
O'r bêl tu fewn i'r bowlen
Y daw tylwyth ffrwyth ei phren.

ARLUNYDD

Y doniau gwych a'n denodd i sylwi
Mor soled y paentiodd;
Yn bur ei lafur lifodd,
Yn ei rin y bu ei rodd.

Dafydd Morris

ERYR

Y brenin balch, di-rinwedd – yn hurtio
Y durtur drwy gamwedd;
Ei aur big a'i dwg i'r bedd
Yn gelain ddiymgeledd.



DINOEDD DYN

Mewn lleoedd mwyn a llawen – yn fy myw
Gwelaf fy mawr angen;
Dyn wyf, bregus dan y nen,
Brau ei einioes fel brwynen.

DYFODOL CYMRU

Ein gwlad, o'i hamddifadu – o'i heniaith
A'n hanes ni'r Cymry,
Fydd heb oror yfory
Yn oedi'n llwfr dan don llu.

Y TYMHORAU

GWANWYN

Mae'r awen hyd y glennydd, – a'i fiwsig
Dros faes a thros fynydd;
Daw'n don dros lethrau'r bronnydd,
Dod yn deg I hudo'n dydd.

HAF

Daw'r haf a'i gynhesaf hin – i droedio
Drwy adwy'n cynefin;
Dod yn llawen fel brenin
Yn rhwysg ei liw gwiw fel gwin.

HYDREF

Hydref drachefn a edrydd – hud oriau
Ei stori a'i gynnydd;
I'r pren daw'r ffrwyth ysbennydd
A daw'r gwrid i lawnder grudd.

GAEAF

Tymor y gwae yw'r gaeaf, – haearnaidd
Yn ei oerni garwaf;
Adeg y nychu duaf
A ddaw'n glwyf â'i ddyddiau'n glaf.

MOZART

Rhagoriaeth ei gerddoriaeth gain – yw'r nwyd
Ddaw o'r nodau cywrain;
Mae oriau hyfryd mirain
Yn swyn hudolus ei sain.

Goronwy Wyn Owen

Rhwydwaith y Gymuned Ffermio, FCN Cymru

Mae Rhwydwaith y Gymuned Ffermio neu FCN Cymru yn cynnig cefnogaeth i ffermwyr a'i teuluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Sefydlwyd y mudiad dros ugain mlynedd yn ôl. Bellach mae tîm o weithwyr achos profiadol Cymraeg ar gael i gynorthwyo ffermwyr a'i teuluoedd yn yr amseroedd anodd ac ansicr yma. Bydd y gweithwyr yma yn cynnig cymorth a chyd-gerdded gydag unrhyw un sydd yn chwilio am gymorth a chefnogaeth. Ond tydi hyn yn dda i ddim onibai fod pobol yn gwybod am y mudiad a sut y gall fod o gymorth iddyn nhw neu eu cydnabod.

Mae swyddog newydd wedi ei benodi fel Swyddog Datblygu'r Rhwydwaith Gymuned Ffermio. Magwyd William Shilvock yn Y Ffôr ger Pwllheli, ac ar ôl treulio amser yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth yn astudio Amaethyddiaeth a Chadwraeth Cefn Gwlad bu'n gweithio ar Fferm laeth, cwmni codi adeiladau amaethyddol a diwydiannol yn ogystal a gweithio fel swyddog cyswllt ffermydd yr Ymddiredolaeth Genedlaethol. Mae William wedi ymgartrefu yn Llithfaen gyda'i bartner Angharad a'r meibion Seth ac Albi. Dywedodd ei fod yn "llawn sylweddoli'r angen am gefnogaeth i ffermwyr a'u teuluoedd gan y bydd sail yr economi amaethyddol yn newid yn y blynyddoedd nesaf". Ychwanegodd ei fod yn "edrych ymlaen i hyrwyddo yr elusen fel bod pawb yn gallu manteisio arni." Y cyfan sydd angen wneud ydi ffonio 03000111999 unrhyw dro rhwng 7yb ac 11yh ac fe gewch wasanaeth cyfangwbl gyfrinachol a phersonnol. Gallwch hefyd ymweld a fcn.org.uk/?lang=cy neu www.farmwell.cymru am fwy o wybodaeth.

**Yma o Hyd
JAMIAU CARTRA'**
Cysylltwch â gwefan
CADWYN OGWEN
neu Neville ac Angharad
(ffoniwch nhw ar 600853)
Elw at Elusennau



Pobl ddwâd ym mhlwyf Llanllechid erbyn 1851

Rai blynyddoedd yn ôl bellach fe fues i'n ymchwilio i achau teulu mam, Nesta Griffith (Jones gynt) a aned yn y Carneddi, Bethesda, yn 1910, ac fe olygodd hynny dreulio oriau pleruser lawer yn pori drwy gofrestri plwyf Llanllechid, a gwahanol gyfrifiadau cenedlaethol sy'n rhoi darlun hynod o ddiddorol o ran poblogaeth o sut yr oedd pethau yn yr ardal dros y blynyddoedd.

Yng nghyfrifiad 1841 yr unig wybodaeth a geir am fan geni person yw a yw wedi ei eni o fewn y sir, sef Sir Gaernarfon, ai peidio. Erbyn cyfrifiad 1851, a oedd yn canolbwyntio ar noson 30/31 o Fawrth, fe nodir am y tro cyntaf blwyf / tref / pentref genedigol pawb, ac felly tasg hawdd, yn ein hachos ni, yw darganfod pwy'n union **na** aned ym mhlwyf Llanllechid.

Dyma, felly, olwg ar y mewnlifiad i'r plwyf a oedd wedi digwydd erbyn 1851. Fe restrir isod **fannau geni** pobl, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu mai yn yr ardaloedd hyn yr oeddynt yn **byw'n** union cyn symud i blwyf Llanllechid.

Gwelir hefyd y **nifer** o'r mewnfudwyr a aned yn y gwahanol ardaloedd.

Nid yw'r cyfrifiad o reidrwydd yn dweud wrthym pwy oedd yn **byw** ym mhlwyf Llanllechid ar y noson cyn dydd y cyfrif yn 1851, dim ond dweud pwy oedd wedi **treulio** r noson honno yno. Gall rhywun ddigwydd bod wedi ymweld â theulu neu ffrindiau, neu aros mewn gwesty am yr un noson honno'n unig. Ac felly nid yw cyfanswm y niferoedd isod yn golygu o reidrwydd bod cynifer â hynny'n **byw** ym mhlwyf Llanllechid ar noson y cyfrifiad, ond mae'n sefyll i reswm bod hynny'n wir am y mwyafrif helaeth.

Dyma, felly, restr o enwau'r manau hynny yr oedd llawer o boblogaeth plwyf Llanllechid ym mis Mawrth 1851 wedi eu geni ynddynt, ynghyd â'r niferoedd a aned yn y lleoedd hynny

A: Aberdaron 2; Abererch 5; Aberffraw 5; Abergele 5; Abergwyngregyn 88; Alstonfield 1; Amlwch 33

B: Bagshot (Surrey) 2; Bangor 157; Beddgelert 28; Betws Garmon 11; Betws Gwerfy(?)l Goch 1; Betws y Coed 12; Betws yn Rhos 2; Biwmares 12; Bodedern 5; Bodewryd 3; Bryncroes 2; Bryntrefaelia 1; Butterson 3;

C: Caer 1; Caergybi 18; Caerhun 40; Caernarfon 103; Caerwys 2; Capel Curig 17; Capel Garmon 3; Ceido 2; Cernyw 3; Cerrigceinwen 8; Cerrig y Drudion 6; CGN (Ceredigion?) 2; Clay Cross 1; Clocaenog 1; Clynnog Fawr 29; Coedana 1; Combs (Suffolk?) 1; Conwy 16; Cork 1; Croesoswallt 1;

CH: Cheadle 3; CHS (Swydd Caer?) 1

D: Deiniolen 7; Deptford (Caint) 1; Derwen 1; Dinbych (Tref neu Sir) 17; Dolbenmaen 5; Dolgellau 4; Dolwyddelan 33; Dulyn 1; Dwygyfylchi 26

E: Eglwysbach 10
F: Folkestone 1
FF: Ffestiniog 44; Fflint 2

G: Glo (Caerloyw?) 1; Grindon 1; Gwyddelwern 2; Gyffin 13

H: Had 1; Harrington 1; Heneglwys 5; Hornsey (Middlesex) 1

I: Irl (Iwerddon) heb fanylu 6
K: Kenn (Dyfnaint); Kilsby 1

L: Lancaster 1; Leeds 1; Leek 1; Lerpwl 16

LL: Llan(ael)haearn 2; Llanallgo 3; Llanasa 1; Llanbadrig 4; Llanbeblig 77; Llanbedr(Sir Gaernarfon) 5; Llanbedr (Meir) 1; Llanbedrgoch 6; Llanbedrog 3; Llanbedr Niwbwrch 11; Llanbedr y Cennin 29 (ai'r un lle â'r Llanbedr uchod?), Llanberis 30; Llanbeulan 1; Llandanwg 3; Llandegfan 10; Llandrillo yn Rhos 6; Llandrygan 4; Llandudno 14; Llandwrog 69; Llandyfyddog 4; (Plwyf) Llandygái 428; Llandygwnn(?)ing 1; Llandysilio (Môn) 6; Llandysul 1; Llanddaniel 2; Llanddaniel Fab 12; Llanddeiniolen 81; Llandderfel 1; Llanddeusant 5; Llanddoged 8; Llanddona 5; Llanddulas 1; Llanddyfan 11; Llanedwen 8; Llanengan 2;

Llanellian (Môn) 11; Llanellwlyd 6; Llanenddwyn 2; Llannerchymedd 7; Llancegryn 2; Llanfachraeth 2; Llanfaelog 9; Llanfaes 4; Llanfaethlu 2; Llanfaglan 1; Llanfair (Caernarfon) 13; Llanfair (Dinbych) 1; Llanfair (Meirion.) 2; Llanfair (Môn) 16; Llanfairfechan 39; Llanfairisgaer 2; Llanfairllwyf 1; Llanfair Mathafarn Eithaf 3; Llanfairtalhaearn 1; Llanfawr 2; Llanfechell 3; Llanfihangel (Caernarfon) 4; Llanfihangel C.G.N. 1; Llanfihangel (Meir.) 7; Llanfihangel (Môn) 12; Llanfihangel Glyn Myfyr 1; Llanfihangel Ysgeifog 7; Llanfihangel y Traethau 1; Llanfrothen 5; Llanfugail 1; Llanfwrog 4; Llanffinan 3; Llangadwaladr / Llanferian 6; Llangaffo 2; Llangefni 29; Llangeinwen 8; Llangelynnin 3; Llangernyw 1; Llangian 2; Llangoed 11; Llangristiolus 7; Llangwm 1; Llangwnadl 1; Llangwyfan 1; Llangwyllog?? (Môn) 5; Llangybi 4; Llangystenin 3; Llanidan 35; Llaniestyn 6; Llanllibio 1; Llanllyfni 90; Llannor 11; Llanrug 37; Llanrwt 22; Llan-rhos 4; Llanrhwydrys 2; Llanrhychwyn 29; Llanrhyddladd 2; Llansadwrn 12; Llansanffraid Glan Conwy 8; Llansanffraid Glyn Dyfrdwy 5; Llantrisant 2; Llanuwchllyn 1; Llanwenllwyfo 3; Llanwnda 26; Llanwrin 2; Llanycil 1; Llanymawddwy 1; Llanystumdwy 6; Llechgynfarwy 6; Llundain 1; M: Machynlleth 1; Maentwrog 1, Manceinion 6; Meirionnydd 10; Mellteyrn 2; Merthyr (Tydful?) 1; MGY (Trefaldwyn?) 1; Môn/Sir Fôn (heb fanylu ardal) 18

N: Nantglyn 1; Nefyn 5; Nelson/ Melson (swydd Stafford?) 1

P: Paddington (Middlesex) 1; Pem (Penfro) 2; Penmachno 11; Penmon 1; Penmorfa 8; Penmynydd 9; Pennal 1; Penrhosllugwy 4; Pentir 1; Pentraeth 19; Pentrefoelas 2; Pistyll 7, Plm (Plymouth?) 3;

R: Reading 1;

RH: Rhiw 1; Rhiwabon 1; Rhodogedo 4; Rhoscolyn 2; Rhosmeirch 1; Rhuthun 2;

S: Sct (Yr Alban) 3; Sir y Fflint 1, St. Martin (Llundain) 1; STS (Swydd Stafford?) heb fanylu 1; Summit 1

T: Tal-y-Llyn 3; Trawsfynydd 1; Trefdraeth (Môn) 9; Trefriwr 21; Trefynnnon 4; Tregaeon 9; Tremerchion 2; Trewalchmai 15; Trewydyr 7; Tudweiliog 1; Tywyn (Meir.) 3;

W: Wandsworth (Surrey) 1; Waterford 2. Y: Ynyscynhaearn 2; Y Rhiw 1; Yr Wyddgrug 3; Ysbyty Ifan 2

Ar nodyn personol. Ar un ochr i deulu mam roedd hen, hen, hen daid - chwarelwr, a aned yn Llanddeiniolen, a'i wraig, a aned yn Llandwrog, yn byw yn Cefn Capel Cwta erbyn 1851. A hefyd erbyn 1851 roedd hen, hen daid ar yr ochr arall, a aned yn Llanddoged, yn byw yn Lliadiart y Gwenyn, ac yntau hefyd yn chwarelwr.

Tybed a fydd rhai ohonoch chi sy'n ymchwilio i achau teulu'n gweld cyswllt o gwbl yn un, neu fwy nag un, o'r lleoedd a enwir uchod.

Fe ellir wrth gwrs wneud yr ymchwil pleruser uchod gyda chyfrifiadau eraill yn ogystal â 1851, ond fe adawaf hynny i rywun arall!!!

Wrth ystyried cymaint o wahanol ardaloedd sy'n cael eu cynrychioli uchod ni ellir ond dychmygu'r cyfoeth ieithyddol, ar wahân i unrhywbeth arall, a ddaeth yn sgil yr holl ymfudo, - geirfaoedd amrywiol a dywediadau unigryw o gymaint o wahanol gefndiroedd, a'r cyfan yn eu tro'n ymblethu i roi i'r dyffryn hwn Gymraeg gyda'r gadarnaf yng Nghymru bid siwr.

Diddorol hefyd yw meddwl tybed faint o'r enwau presennol o fewn y plwyf - adeiladau, ffermydd, caeau, ffriddoedd, lonydd, pyllau afon, ffynhonnau, a.y.y.b. a gludwyd yma o ardaloedd eraill gyda'r mewnlifiad dros y degawdau. (Maes ymchwil arall i rywun?)

John Francon Griffith, Abergele (Bethesda gynt)

Cymunedau Digidol Cymru:

Mae'n bosib eich bod wedi cael tabled neu ffôn yn anrheg gan Sion Corn! Ag os ydi'r teclyn dal yn ei focs ers 'Dolig yn hel llwch, beth am fynd amdani a dechrau ei ddefnyddio? Mae yna gant a mil y gallwch ei gwneud hefo nhw wrth gwrs ond dwi am drafod adnoddau hanes ar y We yn y golofn tro yma, esgus da i dreulio oriau yn chwilota am bethau difyr a diddorol o'ch sofffa dros yr Wyl.

Dwi'n siwr fod llawer ohonoch yn ymwelwyr cyson â'ch archifdy, amgueddfa neu'r Llyfrgell Genedlaethol i chwilota mewn dogfennau hanes neu'n hel achau ond daeth hynny i stop i bob pwrpas gyda llawer o archifdai a llyfrgelloedd wedi cau dros y misoedd diwethaf.

O ganlyniad i'r prinder cyfleoedd yma, dwi am fwrw golwg dros yr adnoddau sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn ymchwilio ein hanes ar-lein. Ac yn sicr mae yna gryn dipyn i'ch cadw'n brysur.

I ddechrau wrth ein traed, ac yn lleol. Yn aml na pheidio, mae'r archifdy lleol yn fan cychwyn da i ddechrau i ganfod adnoddau ar y We. Er enghraifft yng Ngwynedd sef Archifdy Sir Gaernarfon, mae degau o luniau wedi eu digideiddio a'u catalogio, o bob tref a phentref. Mae'n gyfle da i hel atgofion a

chyflwyno darnau bach o hanes i'ch teulu. Yn amlwg, fe fydd casgliad pob archifdy yn wahanol, gyda graddfa yr adnoddau sydd ar gael ar y We yn amrywio. Ond cofwch glicio ar eich awdurdod lleol i weld sydd beth sydd ganddynt ar gael ar y We.

Yn genedlaethol, y man cyntaf i fynd ati i chwilio yw gwefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru a theipiowch yr enw yn Google.com neu deipiowch y canlynol ar dop y porwr: <https://www.llyfrgell.cymru/>

Mae'r adrannau sydd ar gael ar y We yn cynnwys Lleoedd Cymru sy'n cynnwys casgliad o fapiau Degwm Cymru (<https://lleoedd.llyfrgell.cymru/>). Gellir hefyd cael mynediad i Cylchgronau Cymru sy'n gasgliad o gyfnodolion Cymru o'r Traethodydd i'r Geninen (<https://cylchgronau.llyfrgell.cymru/>)

Gellir tyrchu trwy bapurau newydd Cymru hefyd o'r Western Mail i'r Goleud a hynny o foethusrwydd eich cartref: (<https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/>)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig heb os yn adnodd gwych i ganfod hanes pobl o bwys sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at hanes Cymru ac mae'r fersiwn ar-lein yn estyniad o'r beibl gwreiddiol

hwnnw a fu'n arfer hawlio pob silff lyfrau ar aelwydydd Cymru. A'r fantais yw fod y Llyfrgell yn parhau i ychwanegu enwau ato <https://bywgraffiadur.cymru/>

Prosiect sy'n canolbwyntio'n benodol ar y Rhyfel Byd Cyntaf yw Cymru 1914 sydd dan adain y Llyfrgell Genedlaethol a thrwy'r casgliad, datgelir hanes cudd y Rhyfel Byd Cyntaf, gan ddangos sut y bu'r hanes yn effeithio ar fywyd, iaith a diwylliant yng Nghymru. (<https://cymru1914.org/cy>)

Sefydliad arall sy'n hanfodol ar gyfer eich ymchwil yw Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (<https://rcahmw.gov.uk/>) Mae yna ffilmau 360 gradd ar gael i'w gwyllo yn dangos hen dechnegau amaethyddol (<https://cbhc.gov.uk/archwiliwch-eich-archifau-2020-technologau-digidol-ym-maes-treftadaeth/>). Fe geir hefyd miloedd o luniau yng Nghasgliad y Werin yn cynnwys ffotograffau Geoff Charles <https://www.casgliadywerin.cymru/collections/1313441>

Un adnodd gwerthfawr tu hwnt yw Coflein sy'n gatalog ar-lein anferth o archaeoleg, adeiladu a threftadaeth ddiwydiannol ac arforol Cymru. Mi fedrwyd dreulio dyddiau yn chwilio am olion archaeolegol yn eich ardal chi

yma. (<https://www.coflein.gov.uk/>)

Os mai cestyll yw eich bryd, gellir llawlwyrtho ap Cadw ar eich ffôn clyfar trwy'r adran Apps Store ar eich ffon Apple neu Play ar eich Android <https://cadw.gov.wales/> app neu ymweld â'r Wefan, ble ceir llwyth am gestyll Edward I i'n cestyll cynhenid <https://cadw.gov.wales/>

Cofwch hefyd, gellir canfod casgliadau ar-lein ar wefan Amgueddfa Cymru yn <https://amgueddfa.cymru/casgliadau/arlein/> Un wefan sy'n berffaith ar gyfer hel atgofion yw chwaraeydd y BFI neu'r British Films Institute lle gellir gwyllo degau o ffilmau archif dros y 90 mlynedd diwethaf o'ch ardal leol sy'n cynnwys clasur John Roberts Williams Yr Etifeddiaeth. <https://player.bfi.org.uk/free> Ag wrth gwrs, heb anghofio am www.youtube.com sy'n llawn fideos o'ch hardal leol.

Mwynhewch y pori, y gwyllo a'r syrffio! A chofwch wneud defnydd da o'r tabled neu'r ffôn hwnnw! Blwyddyn newydd dda!

Deian ap Rhisiart
Ymgynghorydd a hyfforddwr Cynhwysiad Digidol Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol a lechyd a Llesiant [e-bost: Deian.apRhisiart@wales.coop]

Ymgynghori ar godi premiwm treth cyngor ar ail gartrefi a thai gwag hir-dymor yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i gynyddu'r Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Ers Ebrill 2018, mae'r Cyngor wedi gosod premiwm treth cyngor o 50% ar yr eiddo yma. Er hynny, mae gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Gabinet y Cyngor ar reoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau yn dangos fod niferoedd yn parhau i gynyddu yn y sir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r grym i gynghorau i godi swm ychwanegol o hyd at 100% dros lefel safonol treth cyngor ar eiddo o'r fath ac mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i glywed barn trigolion os y dylid cyflwyno cyfradd uwch o dreth cyngor ar ail gartrefi a thai gwag.

Mae disgwyl y bydd Cyngor Gwynedd yn

penderfynu ar ei bolisi dros y misoedd nesaf, ond cyn i gyfarfod o'r Cyngor llawn ystyried y mater mae cyfle rwan i aelodau'r cyhoedd gyflwyno eu sylwadau drwy lenwi holiadur byr.

Meddai'r Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid Cyngor Gwynedd:

"Ers Ebrill 2018, mae'r Cyngor wedi codi 50% yn ychwanegol o dreth cyngor ar berchnogion ail gartrefi a thai gwag, gyda'r arian yma yn cael ei glustnodi ar gyfer cynlluniau tai yma yng Ngwynedd.

"Mae gwaith ymchwil diweddar wedi dangos fod sefyllfa tai gwyliau yn fater o argyfwng a bod llawer iawn o bobl Gwynedd yn ei chael yn agos at amhosib i gael troed ar y farchnad dai - i brynu ac i rentu. Y gwir ydi fod prisiau tai uchel yn sgil y galw am unedau gwyliau ac ail gartrefi yn gwthio prisiau ymhell y tu hwnt

i afael pobl leol mewn nifer cynyddol o'n trefi a phentrefi.

"Rydym felly yn falch fod arian sydd wedi ei sicrhau trwy'r premiwm treth cyngor wedi ei glustnodi ar gyfer Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd fydd yn anelu at gefnogi pobl Gwynedd i gael mynediad i dai addas yn ein cymunedau.

"Mae hawl gan y Cyngor i godi 100% o bremiwm ail dai ar ail gartrefi ac eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod o amser. Felly rydym yn awyddus i glywed barn trigolion Gwynedd, perchnogion ail gartrefi ac eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod ar y ffordd ymlaen."

Mae'r cyfnod ymgynghori ar agor tan 1 Chwefror 2021. I gymryd rhan, ewch i: www.gwynedd.llyw.cymru/ YmgynghoriadPremiwm neu am gopi papur, ffoniwch 01766 771000.

gair neu ddau

John Pritchard

Y DYFODOL YN DYWYLL

Yr un bob tro oedd brawddeg agoriadol gweddi un o ffyddloniaid y Seiat ym Mhen Llŷn. Yn ddi-ffael, dros y blynyddoedd, byddai'r cyfaill annwyl yn agor ei weddi â'r geiriau: 'Mae'r dyfodol yn dywyll i ni, Ein Tad, ond yn olau i Ti'. Ac i mi, eleni eto, mae'r geiriau'n adleisio'r emyn cyfarwydd ar gyfer dechrau blwyddyn:

'Tad tragwyddoldeb, plygaf ger dy fron, ceisiaf dy fendith ddechrau'r flwyddyn hon; trwy blygion tywyll ei dyfodol hi, Arweinydd anffaeledig, arwain fi.

Beth fydd fy rhan ar hyd ei misoedd maith? Nis gwn, fy Nuw; ni fynwn wybod chwaith. Ai hyfryd ddydd, ai nos dymhestlog ddaw? Bodlon, os caf ymaflyd yn dy law.'

Er y byddwn yn falch o fedru rhoi fy enw dan yr emyn hwn, gwell i mi gydnabod mai John Pritchard arall a'i cyfansoddodd: Thomas John Pritchard, neu a rhoi iddo'i enw barddol, 'Glan Dyfi'. Wrth sôn

am 'blygion tywyll ei dyfodol hi' mae'r emynydd yn cydnabod y gwirionedd yr oedd y gweddïwr yn rhoi mynegiant iddo'n gyson: ni wŷr yr un ohonom beth a ddaw yfory. Mae pob blwyddyn, a phob dydd hyd yn oed, yn ddirgelwch. Fyddai neb ohonom wedi medru rhagweld digwyddiadau 2020. Ond nid am flwyddyn gwbl anarferol fel y llynedd yn unig y mae hyn yn wir: y mae pob blwyddyn yn llawn o 'blygion tywyll', yn cynnwys wrth gwrs y flwyddyn newydd a wawriodd.

Wedi cydnabod nad yw'n gwybod beth a ddigwydd, mae'r emynydd yn brysio i ychwanegu na fyn wybod chwaith. Ni fyn wybod am y dyddiau da na'r dyddiau drwg a all fod wrth law. Nid yw'n chwennych yr hyfrydwch o ddisgwyl y melys na'r pryder o aros am y chwerw. Ond nid eistedd yn ôl yn ddigalon, fel rhywun yn derbyn ei dynged gan sylweddoli na all wneud dim i'w newid, a wna'r emynydd. Eistedd yn ôl a wna yn

gwbl fodlon am ei fod yn gwybod y caiff afael yn llaw'r Hollalluog.

Beth bynnag a ddigwydd y flwyddyn newydd hon, byddwn yn gwbl ddiogel yn llaw'r Arglwydd Dduw. Mae'r emynydd yn credu hynny; a gallwn ninnau trwy ras Duw gredu a dweud hynny. Ac oes, y mae arnom angen gras i ymddiried yn Nuw ac i geisio'i gymorth a'i arweiniad o ddydd i ddydd:

'Rho imi beunydd fyw'n d'oleuni di: Ddihenydd sanctaidd, tyred, arwain fi.'

At y Dihenydd Sanctaidd y mae'r emynydd yn troi am arweiniad. O'r Beibl y daw'r enw hwn ar Dduw (o seithfed bennod Llyfr Daniel er enghraifft). Ac ar ddechrau blwyddyn, cysur yw gwybod mai ar yr 'Hen Ddihenydd' y medrwn ninnau alw: yr un 'un nad yw'n hynu'; y Duw Tragwyddol sy'n 'Hen' yn yr ystyr nad oes iddo ddechrau na diwedd. Eleni, fel erioed, bydd yr Arglwydd yn arwain ac yn cynnal ei bobl.

Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Bygythiad y Farchnad Dai Gwyliau

Mae Cylch yr Iaith yn beirniadu Llywodraeth Cymru yn hallt am fethu ag ymateb i argyfwng y farchnad dai gwyliau sy'n tanseilio strwythur a gwedd cymdeithasol ein cymunedau a thrwy hynny beryglu'r iaith.

Bydd Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, yn cyhoeddi bwriadau Llywodaeth Cymru ynglŷn â thai gwyliau y mis yma, a hynny o ganlyniad i bwysau o sawl cyfeiriad.

Meddai Cylch yr Iaith mewn datganiad, "Mae'r Llywodraeth Lafur yng Nghaerdydd wedi gadael i'r farchnad dai gwyliau ddatblygu'n ddi-reol fel bod argyfwng cymdeithasol ac ieithyddol mewn nifer o gymunedau ers tro, a chymunedau ychwanegol yn dod o dan bwysau cynyddol oherwydd dwysedd tai gwyliau. Maen nhw wedi anwybyddu'r broblem drwy'r blynyddoedd ac wedi dewis cau llygaid

a gwrthod cydnabod y chwalfa gymunedol a'r anghyfiawnder cymdeithasol, gyda phobl yn methu cael cartref yn eu ardaloedd eu hunain.

"Mae'r farchnad dai yn cael ei meddiannu'n gynyddol gan bobl o'r tu allan, a does gan drigolion lleol ddim gobaith cystadlu oherwydd bod y prisiau ar gynnydd yn gyson a chyflogau cymharol isel siroedd y gorllewin yn aros yn eu hunfan. Yng Ngwynedd, mae dros 10% o stoc tai bellach yn ail gartrefi a thai gwyliau tymor-byr."

Mae'r mudiad wedi anfon at Mark Drakeford ac at y Gweinidog Tai yn galw arnynt i weithredu'n gadarn ac ar frys er mwyn newid y sefyllfa'n sylfaenol. Mae gofynion y mudiad yn cynnwys:

1. Diwygio Gorchymyn Cynllunio Deddf Gwlad a Thref i greu Dosbarth Defnydd penodol ar gyfer

ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr, a sicrhau bod angen caniatâd cynllunio gan awdurdod lleol ar gyfer troi tŷ yn dŷ gwyliau tymor-byr neu'n ail gartref, neu ar gyfer defnyddio tŷ newydd fel tŷ gwyliau tymor-byr neu ail gartref.

2. Rhoi grym i awdurdodau lleol weithredu system drwyddedu orfodol ar gyfer llety gwyliau.

3. Gwahardd ail gartrefi a thai gwyliau tymor-byr rhag bod yn gymwys ar gyfer y rhyddhad o ardrethi annomestig.

Yn ôl Cylch yr Iaith, rhaid i awdurdodau lleol gael y grymoedd statudol i reoli'r farchnad dai gwyliau, fel y gallant warchod ein cymunedau rhag cael eu chwalu a throi ein hardaloedd i fod yn ddim ond cyrchfannau gwyliau.

Howard Huws
Cydlynnydd Ymgyrch
Dwrstiaeth Cylch yr Iaith

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909


Croesair Ionawr 2021

AR DRAWS

- 2 Darlun yn y meddwl (7)
- 7 Dechrau melystra a diwedd tlodi i gael y mis ffrwythlon (4)
- 8 Llusern fel un Fflorens gynt (4)
- 9 Coban - dilledyn i gwsg braf (5)
- 10 Un hir i 'sipian' yn chwarel y Penrhyn neu'n finiog rhwng caeau fferm (6)
- 11 Yn well na'r lleill (6)
- 12 Yn ddjarhebol, mae'n dysgu ei fam sut i fwyta! (3)
- 14 Yn y bar rywsut yn gu i gael peint o gwrw (5)
- 16 Un o weithgareddau crefftus y chwarelwr (5)
- 18 I ddal barf (3)
- 21 E.e. y disgyblion (6)
- 23 Gwobr, ac i'r da y bwysicaf yn yr Eisteddfod (6)
- 24 Cortyn tenau (5)
- 25 Dihiryn (4)
- 26 Cyhuddiad llys o'r anghyfreithlon (4)
- 27 Yn oer a rhyllid fy nghyflwr (7)

I LAWR

- 1 Swnio fel lle mewn carchar i gadw porthiant, ond na, tynnu coes ydw i (7)
- 2 Sorri'n bwt os na chaf help i godi yn iawn (5)
- 3 Er mwyn cael hyd iddo (6)
- 4 I gwmni'r meddyg esgryn i wella'r ffêr neu ran o'r llaw (6)
- 5 Symudiad awyren di-beiriant (7)
- 6 Ym mlaen hon yn gywir y mae rhoi'r stamp (5)
- 13 Y fo ysgrythurol, (3)
- 15 Gwlad ac ychydig o famwlad ymhell bell i ffwrdd (7)
- 17 Nid yw'r llwybr yn syth heb y chwa at Ogo'r Lle Tawel (7)
- 18 Yn ymyl (6)
- 19 Ond oni'r rhain yw'r llysiâu gorau i wneud blas (6)
- 20 Pentref Laura Ashley (5)
- 22 Blaendal (5)



ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2020

AR DRAWS 1 Pigog, 4 Sawru, 8 Awdures 9 Mwgwd, 10 Talwr, 11 Erlynydd, 12 Canu Plygain, 16 Rhagflas, 18 Ardal, 20 Gosod, 21 Oblegid, 22 Dyddio, 23 Dileu

I LAWR 1 Plasty, 2 Gydol, 3 Gororau, 4 Symol, 5 Wagenni, 6 Un Dydd, 7 Esgeulustod, 13 Atgasedd, 14 Gwaelod, 15 Blodau, 16 Rheged, 17 Ledio, 19 Degol

Ni fyddwn yn ystyried y Croesair fel cystadleuaeth nes y daw diogelwch a threfn arferol yn ôl. Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi'n garedig **i beidio** ag anfon atebion fel arfer mewn e-bost na thrwy'r post na thrwy'r twll llythyrau. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y Croesair uchod yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori mewn cyfnod mor ddiiflas!! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael ynddi o ddiifri unwaith eto.

BLWYDDYN NEWYDD DDA A DIOGEL i bob un ohonoch.



Siân Gwenllian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076

williamshy@parliament.uk